Y BLAID WERDD

MANIFFESTO
YR ETHOLIAD CYFFREDINOL
2010

cynnwys

Rhagair 2
gan Caroline Lucas, Arweinydd y Blaid Werdd

Rhagarweiniad 3

Ein Gweledigaeth 5

1 YR ECONOMI 6
Rheoli'r economi 8
Gwaith a swyddi 9
Lles 12
Trethi 14

2 BYWYD POB DYDD 18
Byw yn lleol 18
Gwasanaethau 19
Tai 20
Addysg 21
Iechyd 22
Trosedd 24
Gwastraff 26
Busnesau bach 27

3 DINASYDDION A'R LLYWODRAETH 28
Defnyddwyr a dinasyddion, cyhoeddus a phreifat 28
Polisïau ar gyfer dinasyddiaeth 29
Llywodraeth 31
Cyfranogiad 32

4 EIN HAMGYLCHEDD 33
Newid mewn hinsawdd 33
Ynni 34
Cludiant 37
Ffermio, bwyd a diogelu anifeiliaid 39
Bywyd gwyllt, mannau agored a thirwedd 41

5 DATBLYGU RHYNGWLADOL, HEDDWCH A DIOGELWCH 42
Polisi tramor ac amddiffyn 42
Mewnfudo 45
Masnach, cymorth a dyled 46

rhagair

Mae busnes yn ôl yr arfer gan y prif bleidiau gwleidyddol, wedi rhoi i ni gyfres o argyfyngau economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol cysylltiedig. Pam fyddech chi'n ymddiried yn yr un pleidiau hyn i ddatrys yr argyfyngau? Mae cyflwr Prydain ym mis Mai 2010 yn gweiddi am feddylfryd ffres a lleisiau blaengar newydd.

Beth sydd gan y pleidiau eraill i'w cynnig?

Mae'r argyfwng ariannol wedi tynnu 'ceidwadaeth drugarog' y Torïaid yn gareiau. Byddant yn gadael i'r farchnad rygnu ymlaen, yn gadael i'r Wladwriaeth fynd am yn ôl ac yn gobeithio y bydd y sector gwirfoddol yn casglu'r darnau ynghyd. Mae'n anodd dychmygu rysáit sy'n fwy sicr o ddwysáu anghydraddoldeb a dinistrio'r blaned na hon – ac eto dyna beth a gynigir gan David Cameron.

Mae cefn Llafur Newydd yn erbyn y mur yng nghornel bellaf y salŵn cyfle olaf. Ar ôl tair blynedd ar ddeg mewn grym, mae ôl ei fysedd dros bob modfedd o'r economi anghyfiawn ac anghynaliadwy y bydd y Llywodraeth newydd yn ei hetifeddu. Mae Llafur Newydd yn ysgogi'r economi trwy fwy o ddefnydd – sef y peth cwbl anghywir i wneud.

Mae'r Democratiaid Rhyddfrydol - 'y blaid neis' - wedi ffieiddio. Mae'r elfen trethi uwch i'r cefnog wedi diflannu ac mae Nick Clegg wedi gosod meddylfryd 'mae'r wladwriaeth yn broblem' ar ei blaid.

Yn wahanol i'r pleidiau eraill, credwn mai dyma'r union adeg i fynd i'r afael â'r cynnydd mewn anghydraddoldeb sydd wedi anffurfio'n cymdeithas i'r fath raddau yn y blynyddoedd diwethaf. Rydym am fynd i'r afael â'r tri argyfwng economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol a rhoi cyfle i bob aelod o'n cymdeithas gael bywyd gwell. Dim ond y Blaid Werdd sy'n deall yr angen am anheddiad economaidd ac amgylcheddol newydd, lle mae'n heconomi a'n hamgylchedd yn gweithio gyda, yn hytrach nag yn erbyn ei gilydd, er lles pawb.

Felly, rwy'n eich annog i bleidleisio dros y Blaid Werdd ar 6 Mai i gael byd tecach.

Caroline Lucas, Arweinydd y Blaid Werdd

rhagarweiniad

Y Blaid Werdd yw'r blaid sy'n cynnig gobaith a newid radicalaidd.

Yn ôl yr arfer, mae blynyddoedd ar flynyddoedd o wleidyddiaeth wedi rhoi i ni gymunedau toredig a gwasanaethau anghysbell, anhrefn ariannol a chwalfa amgylcheddol.

Ond mae dewis arall: dewis gwyrdd trawsnewidiol.

Mae pleidleiswyr ledled y wlad eisoes wedi gweld bod y Blaid Werdd yn wahanol i weddill y pleidiau.

Mae dros 100 o gynghorwyr y Blaid Werdd wedi'u hethol yn y blynyddoedd diwethaf. Mae polisïau gwyrdd yn cysylltu cymunedau lleol cryf a gwasanaethau cyhoeddus, tegwch a chynaliadwyedd. Mae dau o Aelodau Cynulliad Llundain y Blaid Werdd, Jenny Jones a Darren Johnson, wedi sicrhau buddsoddiadau enfawr mewn cymunedau a gwasanaethau, ac maent yn parhau i amddiffyn y rhain yn wyneb toriadau'r Maer Ceidwadol presennol. Mae dau ASE y Blaid Werdd, Caroline Lucas a Jean Lambert, wedi arwain achos cydraddoldeb a chynaliadwyedd ym Mrwsel. Yn yr Alban, mae MSPs y Blaid Werdd wedi gwneud yr un fath yn Senedd yr Alban. Mae cynghorwyr Gwyrdd yn cael eu hethol ac yn parhau'n etholedig ym mhobman.

Tro San Steffan yw hi nawr

Mae'r Etholiad Cyffredinol hwn yn gyfle hanesyddol i droi llwyddiant lleol, Llundeinig, Ewropeaidd ac Albanaidd yn llwyddiant i'r DU. Am y tro cyntaf erioed, gall y Blaid Werdd dorri monopoli San Steffan trwy fynd â llais creadigol, radical ac annibynnol newydd i'r Senedd i fynd i'r afael â'r oes ddigynsail sydd ohoni. Mae hon yn foment arloesol, a gallwch chi fod yn rhan ohono.

Mae pleidleiswyr ar hyd a lled Prydain wedi dysgu mai'r unig bleidlais a gaiff ei gwastraffu yw pleidlais nad ydych yn credu ynddi.

Mae angen meddylfryd newydd ar yr heriau a'r cyfleoedd a wynebwn. Ceir tri argyfwng sy'n diffinio'n hoes: economi llawn dyled sydd ar fin dymchwel a swyddi'n mynd ar drai, anghydraddoldeb enfawr o ran incwm ac asedau, a newid catastroffig mewn hinsawdd. Mae angen inni frwydro yn erbyn yr argyfyngau hyn gyda'n gilydd a dim ond y Blaid Werdd sy'n gwybod sut mae gwneud.

Rydym wedi bod o flaen ein hamser yn gyson, gan alw am yr hyn yr oedd ei angen cyn i'r lleill hyd yn oed sylweddoli ar yr angen. Rydym wedi bod yn iawn dro ar ôl tro ynglŷn â'r bygythiadau sy'n wynebu'r wlad a'r byd hwn – ein hunig fyd. Nawr yw'r amser i ymddiried ynom i ddelio â'r bygythiadau hynny ac arwain y ffordd i fywyd gwell i bob un ohonom.

Rydym yn byw mewn oes o newid mawr ac felly cyfle mawr. Mae'r byd yn agor i fyny ac mae'r hen reolau'n cael eu bwrw i'r neilltu. Os credwn mewn rhywbeth gwell, nawr yw'r amser y gallwn ei wir gyflawni. Ein her ni i chi yw beiddio breuddwydio am ddyfodol gwell a gweithio gyda ni i wneud iddo ddigwydd.

Wrth wraidd ein dull cydlynol y mae'r Fargen Newydd Werdd.

Byth ers iddi greu'r ymadrodd gyda'i chydweithwyr yn y grŵp o economegwyr y Fargen Newydd Werdd yn yr haf 2008, mae'r ASE ac Arweinydd y Blaid Werdd, Caroline Lucas, wedi bod ar flaen y gad o ran y cynnig arloesol hwn i fynd i'r afael â thri argyfwng y cwymp economaidd, anghydraddoldeb a newid mewn hinsawdd. Mae'r Fargen Newydd Werdd yn ymwneud â buddsoddi'n helaeth i greu swyddi a symud tuag at economi gynaliadwy, ddi-garbon.

Ni all mentrau preifat ddod â'r swyddi a'r bobl at ei gilydd, felly mae'n rhaid i'r Llywodraeth weithredu, yn union fel y gwnaeth Llywodraeth UDA yn y 1930au, i hyfforddi a chyflogi pobl ddi-waith i wneud y gwaith oedd yn angenrheidiol.

Bydd ASau Gwyrdd yn ymladd i symud rheolaeth yr arian o'r gyfalafiaeth casino sydd wrth wraidd y cwymp presennol i fuddsoddi cynhyrchiol, defnyddiol. Bydd hyn yn lleddfu diweithdra ac yn dechrau'r symudiad tuag at system ynni ddi-garbon. Bydd yn sefydlogi'r economi'n gyffredinol, yn arwain at ffyrdd newydd a deniadol o fuddsoddi cynilion personol a chronfeydd pensiwn, yn creu mwy o degwch ac yn adfer ymdeimlad o bwrpas i economi sydd wedi'i nodweddu gan duedd, gorelwa a phrynwriaeth.

Mae Prydain wrth groesffordd. Mwy o anhrefn ariannol a chwalfeydd amgylcheddol, neu bolisïau sy'n gwneud synnwyr cymdeithasol ac amgylcheddol da? Toriadau mewn gwasanaethau cyhoeddus neu ysgolion a gwasanaethau iechyd lleol ansawdd da? Mwy o fateroliaeth ddidostur neu fywyd tecach, mwy boddhaol, mwy fforddiadwy?

Chi sydd i ddewis.

Rhowch eich ffydd yn y Blaid Werdd a gallwn wneud iddo ddigwydd gyda'n gilydd.

ein gweledigaeth

Bydd rhai'n dweud wrthych mai moethusrwydd yw materion 'gwyrdd' ar adeg o galedi economaidd. Anghywir. Mae polisïau gwyrdd yn hanfodol er mwyn i ni gael ein hunain allan o'r llanastr hwn a chreu economi gynaliadwy a theg.

Ein gweledigaeth ni yw cymdeithas decach sy'n bodloni anghenion pawb, ac economi sy'n gweithio gyda natur yn hytrach nag yn ei herbyn. Cymdeithas fwy cyfartal. Incymau uwch i bensiynwyr yn hytrach na bonysau i fancwyr. Strydoedd tawelach, glanach, mwy diogel. Cymunedau lleol cryfach a lle i blant chwarae a dysgu. Bwyd iachach, mwy diogel, gwell a'r amser i'w gwerthfawrogi. Byd naturiol a gaiff ei adael mwy iddo'i hun.

Mae modd cyflawni'r freuddwyd hon. Y cyfan y mae arni ei hangen yw dewrder gwleidyddol – a chefnogaeth ddemocrataidd boblogaidd i'r dewrder hwnnw. Dim ond y Blaid Werdd sydd am weld cefn anghydraddoldeb, dadreoleiddio a laissez-faire rhemp. Dim ond y Blaid Werdd sydd wedi deall gwersi'r argyfwng ariannol ac sy'n gwybod beth i wneud yn ei gylch. Dim ond gan y Blaid Werdd y mae gweledigaeth i Brydain a fydd yn gweld gwell ansawdd bywyd i bawb.

1

Yr economi: Ei gwneud yn deg, gwneud iddi weithio

Mae gan y Blaid Werdd gynlluniau i adfer gwaith boddhaol ac ystyrlon i'r wlad

Yr hyn rydym wedi'i weld dros y flwyddyn ddiwethaf yw economi mewn helbul, sy'n gweld swyddi'n diflannu ac sy'n bwydo ar bensiynau a chynilion. Mae mor amlwg nad yw busnes yn ôl yr arfer yn gweithio. Mae'n rhaid i ni godi economi a chymdeithas gynaliadwy, neu nid oes dyfodol i neb. Gallai torri buddsoddiadau nawr arwain at ddirwasgiad dwy ergyd, wrth i'r Fargen Newydd Werdd addo diogelwch i swyddi a sefydlogrwydd economaidd.

Mae system ariannol Prydain a'r byd wedi tyfu y tu hwnt i bob rheswm i'r economi go iawn y mae disgwyl iddi wasanaethu. Trwy adeiladu ar hapfasnach credyd ac ariannol hawdd, mae wedi colli cysylltiad â'r elfennau ffisegol sydd wrth wraidd iddo. Mae cyfalafiaeth casino wedi mynd yn bwysicach na gwneud pethau a darparu gwasanaethau. Mae tai wedi mynd yn fuddsoddiadau hapfasnachol yn hytrach nag yn rhywle i fyw.

Rhan o fod yn gynaliadwy yw bod yn fwy cyfartal. Mae economi anghynaliadwy, llygredig yn effeithio ar bob un ohonom, ond mae'n waeth i'r tlodion na'r cyfoethog – mae'r tlodion yn byw lle mae'r aer a'r dŵr ar eu mwyaf llygredig, a'r amgylchedd ar ei leiaf iachus.

Un blaned sydd gennym, a'r ffordd orau o ofalu amdani yw rhannu ei chyfoeth yn decach. Ni ddylai unrhyw un fod mor dlawd fel nad oes ganddynt ran yn llwyddiant ein hymdrechion yn y pen draw. Mae angen polisïau arnom ar gyfer cynaliadwyedd a thegwch – nid yw un yn gweithio heb y llall. Dyna pam rydym yn dadlau o blaid yr un cwota carbon i bawb, gwell pensiynau ac inswleiddio am ddim – oherwydd maent yn deg, ac yn dda i bobl a'r blaned ill dau. Rhaid i ni ddefnyddio adnoddau'n ddoeth a'u rhannu'n deg.

Mae anghydraddoldeb yn y gymdeithas Brydeinig yn dechrau wrth eni plant, neu hyd yn oed cyn hynny, gyda phwysau geni isel a marwolaethau sylweddol uwch mewn babanod a phlant o blith grwpiau o dan anfantais economaidd. Mae tua un o bob pum plentyn yn parhau i fyw mewn cartrefi incwm isel. Mae plant o'r grwpiau hyn yn llai tebygol o wneud TGAU a Safon Uwch ac o fynychu prifysgolion.

Mae anghydraddoldeb yn wael i bob un ohonom

Mae tystiolaeth newydd, a gyhoeddwyd gan yr Ymddiriedolaeth Cydraddoldeb (www.equalitytrust.org.uk), wedi dangos bod anghydraddoldeb yn gysylltiedig â nifer fawr o elfennau cymdeithasol drwg, a chydraddoldeb gyda llwyddiant. Nid yw'r pwyntiau isod yn rhagfarnau sentimental o wleidyddion sy'n pwyso i'r chwith yn unig, ond yn ffeithiau sy'n seiliedig ar dystiolaeth wyddonol.

- Mae pobl yn ymddiried yn ei gilydd mwy mewn gwledydd mwy cyfartal.
- Mae mwy o fyfyrwyr yn methu gorffen yr ysgol uwchradd yn nhaleithiau mwy anghyfartal UDA
- Mae plant yn nhaleithiau mwy cyfartal UDA yn sgorio'n well mewn mathemateg a darllen.
- Mae gan wledydd mwy cyfartal lai o bobl yn y carchar – mae UDA yn carcharu pobl 14 gwaith yn fwy na chyfradd Japan.
- Os oedd gennych rieni tlawd, rydych chi'n fwy tebygol o ddod yn gyfoethog mewn cymdeithasau cyfartal fel Norwy, ac yn llawer llai tebygol yn yr UDA anghyfartal. Ac mae symudedd cymdeithasol wedi dirywio ym Mhrydain yn y blynyddoedd diwethaf.
- Mae cymdeithasau anghyfartal yn fwy treisgar, gyda mwy o ladd.
- Mae llai o ferched yn eu harddegau'n beichiogi mewn cymdeithasau mwy cyfartal.
- Mae lles plant, fel y mesurir gan Fynegai UNICEF, ar ei orau mewn gwledydd mwy cyfartal. Ymhlith y gwledydd cyfoethog, mae ar ei waethaf yn y DU.
- Mae gwledydd mwy cyfartal yn ailgylchu mwy o'u gwastraff.
- Nid dim ond y bobl dlawd mewn gwledydd mwy cyfartal sy'n elwa ar fwy o gydraddoldeb; mae pobl gyfoethog mewn cymdeithasau mwy cyfartal yn gwneud yn well na phobl gyfoethog mewn cymdeithasau llai cyfartal.

Ac mae anghydraddoldeb yn eich gwneud chi'n sâl; i weld mwy ar iechyd ac anghydraddoldeb, gweler y blwch ar dudalen 23.

Mae gan grwpiau lleiafrifoedd ethnig, unig rieni a phobl heb gymwysterau ffurfiol gyfradd ddiweithdra o oddeutu dwbl y gyfradd ar gyfer cyfanswm y boblogaeth oed gweithio. Mae'r 1 y cant o gartrefi cyfoethocaf yn berchen ar dros 20 y cant o gyfoeth Prydain. Mae'r anghydraddoldebau dybryd yn parhau ar hyd bywyd, gyda rhyw 25 y cant o bensiynwyr yn byw mewn tlodi, a cheir gwahaniaethau sylweddol yn nisgwyliad oes, yn enwedig ymhlith dynion, sy'n gysylltiedig ag incwm. Ac mae anghydraddoldeb wedi codi yn y blynyddoedd diwethaf, yn fwyaf serth o dan Geidwadwyr Mrs Thatcher er 1979, cyn dirywio ychydig ym mlynyddoedd cynnar Llafur Newydd, dim ond i godi eto yn y blynyddoedd diwethaf.

Nid yn unig y mae anghydraddoldeb yn ddrwg yn ei hun. Mae'n ein gwneud ni'n sâl, yn achosi i ni farw'n gynt, yn codi lefelau trosedd, yn gostwng cyflawniad academaidd, ac yn creu straen a salwch meddwl. Mae ymchwil newydd wedi dangos bod cymdeithasau mwy cyfartal yn gwneud yn well ac mai cydraddoldeb - yn hytrach na chyfoeth cyfartalog syml neu hyd yn oed ddiffyg tlodi yw'r prif lwybr i gymdeithas well i bawb, yn gyfoethog ac yn dlawd.

Yn sail i hyn i gyd y mae economeg werdd, sef yr unig economeg realistig. Mae'r Gwyrddion yn deall bod angen economi un blaned arnom sy'n defnyddio dim mwy na'r adnoddau a rydd i ni, nid ffantasi economi aml-blaned y pleidiau gwleidyddol eraill a fydd yn cwympo'n deilchion un diwrnod. Mae'r union ffordd rydym yn mesur 'llwyddiant' economaidd heddiw yn dangos diwedd busnes yn ôl yr arfer. Mae'r 'Cynnyrch Mewnwladol Crynswth' yn mesur yr holl weithgarwch economaidd ym Mhrydain – hyd yn oed yr arian a gaiff ei wario ar gasglu darnau ein cymdeithas annheg ac anghynaliadwy. Mae carchardai a llygredd mor 'gynhyrchiol' ag ysgolion ac iechydaeth ym myd economeg gonfensiynol.

Rydym am wella lles pobl ac iechyd y blaned yn hytrach na maint yr economi. Oherwydd mae maint yn cyfrif: os aiff yr economi'n rhy fawr, bydd yn tyfu y tu hwnt i'w cyfyngiadau ecolegol. Nawr rydym yn wynebu terfyn heriol iawn: gallu'r atmosffer a'r Ddaear i amsugno'n gollyngiadau nwy tŷ gwydr heb orgynhesu. Dim ond y Blaid Werdd sy'n fodlon wynebu'r terfynau hyn yn iawn, ac i ddweud mai ffantasi peryglus a diofal yw twf economaidd diderfyn heb feddwl am y canlyniadau.

Mae tipyn o waith i'w wneud i greu economi sicr a sefydlog. Bydd pontio i economi gynaliadwy a theg yn creu cannoedd ar filoedd o swyddi mewn gweithgynhyrchu, dylunio, adeiladu a pheirianneg. Ac mae tipyn o waith sydd eisoes yn cael ei wneud ond sydd heb ei gydnabod eto, fel gwaith yn y cartref. Dylid gwobrwyo gofalwyr am y gwaith a wnânt. Ni ddylai rhannu swyddi, gwaith rhan-amser ac amser i ffwrdd i astudio neu ailhyfforddi fod yn fagl i dlodi fel y mae o dan y system fudd-daliadau bresennol.

I grynhoi, byddwn yn creu economi deg a chynaliadwy trwy ailddosbarthu incwm ac asedau, adennill arfau rheolaeth economaidd, a rhyddhau doniau amrywiol ein dinasyddion.

rheoli'r economi

Rheolaeth tymor byr o'r economi sy'n dychwelyd i'r hanfodion – arian cadarn, llai o ddyled, benthyca cyfrifol, rheoleiddio cywir a dim offerynnau ariannol peryglus

Mae dod â diweithdra i ben ac atgyweirio materion ariannol y Llywodraeth yn amlwg ar frig y rhestr ar hyn o bryd. Ond rhaid i ni hefyd wneud newidiadau tymor hir pwysig i ailadeiladu'r economi: symud i economi ddi-garbon, symud i ffwrdd o obsesiwn gyda thwf, ac adeiladu cymdeithas fwy cyfartal.

Yn wahanol i'r Torïaid, credwn y bydd hyn yn gofyn am ymyrraeth sylweddol gan y Llywodraeth, o ran gwariant uniongyrchol y Llywodraeth ac mewn mesurau sydd wedi'u cyfeirio at y system ariannol. Yn wahanol i Lafur, ni fyddwn yn canolbwyntio ar annog defnydd ond diogelu gwasanaethau cyhoeddus, gwariant ar fuddsoddi yn yr economi werdd newydd a chreu mwy o gydraddoldeb. Bydd dull y blaid Lafur yn paratoi argyfyngau i'r dyfodol trwy annog dyled wael a defnydd anghynaliadwy.

Credwn mai dim ond y polisïau canlynol fydd yn cyflwyno'r economi deg, sefydlog a chynaliadwy y mae arnom ei hangen yn ddirfawr:

- **Buddsoddi yn yr economi werdd** nawr – ac os, mewn rhai sectorau hollbwysig fel creu ynni, bod y sector preifat yn gweithredu'n rhy araf ac ar raddfa annigonol, rhaid i'r Llywodraeth achub y blaen.
- Mae'n **rhaid talu** am ein rhaglen, ac rydym yn derbyn nad oes modd cynnal graddfa benthyg y Llywodraeth o 12% o Gynnyrch Mewnwladol Crynswth. Fel y Llywodraeth, byddwn yn anelu at fwy na haneru'r diffyg erbyn 2013, a dyluniwyd y rhaglen drethu a gwariant yn y maniffesto hwn i gyflawni hynny.

- **Codi trethi** o'i lefel isel iawn bresennol o ddim ond 36% o Gynnyrch Mewnwladol Crynswth - er enghraifft, roedd yn fwy na 40% yn holl flynyddoedd Mrs Thatcher yn ei swydd. Ni chaiff y bwlch cyllidol ei achosi gan ormod o wariant cyhoeddus ond trwy drethi'n gostwng i lefelau annerbyniol o isel.
- Sicrhau bod y rhai **mwyaf abl i dalu yn wynebu eu cyfran yn deg** ac yn cyflwyno cynnydd mawr ei angen mewn **trethi amgylcheddol**.
- **Rheoleiddio'r sector ariannol yn llymach**, o bosibl ar lefel ryngwladol neu'r UE, ond os oes angen, dim ond yn y DU. Yn benodol, adwerthu ar wahân i fancio buddsoddiadau.
- Cefnogi sefydliadau newydd fel **banc buddsoddiadau gwyrdd** a banciau cymunedol lleol yn y sector ariannol, a ffyrdd newydd o fuddsoddi yn yr economi werdd, fel **bondiau cynilion gwladol gwyrdd**.
- Gwyrdroi'r duedd tuag at economi fwyfwy dibynnol ar wasanaethau ariannol, ac adeiladu **sylfaen amaethyddol a gweithgynhyrchu** newydd a chynaliadwy i'r economi.
- **Diogelu'r gwasanaethau cyhoeddus sylfaenol**, sy'n sail i gymdeithas deg. Gallai arbedion effeithlonrwydd cymedrol fod yn bosibl (efallai £2-3 bn neu 0.25% dros y gwasanaethau cyhoeddus cyfan bob blwyddyn, ac yn benodol trwy wella effeithlonrwydd ynni mewn ysgolion ac ysbytai), ond dim byd ar y raddfa y mae'r pleidiau eraill yn dibynnu arni i wneud cyfanswm eu ffigurau. Bydd y toriadau i'r gwasanaethau iechyd ac addysg yn taro'r tlotaf a'r rhai mwyaf agored i niwed yn y lle cyntaf. Rhaid i ni helpu'r pensiynwyr a'r plant tlotaf yn benodol.
- Troi cefn ar y cynnyrch mewnwladol crynswth fel y **mesur allweddol o lwyddiant economaidd** a cheisio'n hytrach i gynyddu'n lles cyffredinol.
- Annog mwy o rannu eiddo deallusol trwy **leihau, ond heb roi'r gorau i lefelau diogelu patent a hawlfraint**. Yn benodol, byddwn yn cyfreithloni **copïo rhwng cydweithwyr** lle na chaiff ei wneud fel busnes ac yn gwneud hi'n bosibl codi patent ar feddalwedd bras a syniadau diwylliannol.

gwaith a swyddi

Gweithio i fyw, nid byw i weithio

Mae colli swyddi sydd wedi cyd-fynd â chamreoli model economaidd anghynaliadwy yn wastraff tramgwyddus o dalent a dyheadau, ac wedi troi bywyd yn frwydr ddyddiol i fyw i filiynau o'n cyd-ddinasyddion. Wrth i'r bancwyr mawr barhau i gadw'ch arian ar ffurf bonysau heb eu hennill, mae ffatrïoedd, cwmnïau a ffermydd yn gorfod diswyddo mwy a mwy o weithwyr bob dydd, wythnos a mis.

Rhaid i hyd ddod i ben. Ein prif flaenoriaeth a'n blaenoriaeth yn syth yw creu miliwn o swyddi a lleoedd hyfforddi ychwanegol ymhen blwyddyn lawn o weithrediad ein cynllun buddsoddi mawr, y Fargen Newydd Werdd. Byddai hon yn mynd i'r afael â'r problemau cyflogaeth ac amgylcheddol. Byddai'n cynnwys pecyn o fesurau a ddisgrifir ar hyd y maniffesto, gan gynnwys hyfforddi'r gweithlu, buddsoddi mewn ynni adnewyddadwy, cludiant cyhoeddus, inswleiddio, tai cymdeithasol a rheoli gwastraff.

Byddwn hefyd:

- **Yn cynnig hyfforddiant gweithlu Gwyrdd** a rhaglen gymunedol amgylcheddol sy'n cynnwys cyrsiau hyfforddiant ar gyfer swyddi mewn arbed ynni ac ynni adnewyddadwy, gyda chyrsiau

trawsnewid a ariennir gan grantiau i beirianwyr medrus o ddiwydiannau eraill. Byddwn yn gwario £5bn yn y flwyddyn nesaf ar greu 350,000 o leoedd hyfforddiant, gan gynnig cyfleoedd i 700,000 o bobl ddi-waith, yn enwedig pobl ifanc ddi-waith.

- **Yn gweithio tuag at wythnos waith o 35 awr.** Mae gweithwyr amser llawn y DU yn gweithio'r oriau cyfartalog hiraf yn Ewrop: 43.5 awr, yn erbyn 38.2 yn Ffrainc a 39.9 yn yr Almaen. Bydd wythnos 35 awr yn gwella'r cydbwysedd gwaith/bywyd, yn helpu rhannu gwaith, ac yn rhan o drawsnewid cyfiawn i economi carbon isel.
- Yn gwrthsefyll unrhyw wanhau i'r **Gyfarwyddeb Oriau Gwaith.**
- Yn hyrwyddo **cydraddoldeb rhyw.** Mae'r bwlch cyflog fesul awr rhwng dynion a menywod yn parhau mor uchel â 38% i weithwyr rhan-amser; yn nodweddiadol, mae incymau menywod wedi ymddeol 40% yn llai na dynion. Bydd ein polisïau ar Bensiwn Dinasyddion, gofal plant a dim gwahaniaethu yn y gwaith yn helpu llenwi'r bylchau hyn.
- Yn cyflwyno **archwiliadau cyflog cyfartal** i gyflogwyr mwy o faint
- Yn hyrwyddo newidiadau cyfreithiol i'w gwneud hi'n llawer haws i fenywod fynd ag **achosion cyflog cyfartal** i'r llys a galluogi menywod i fynd â'r achosion hynny fel grŵp.
- Yn gofyn bod **40% o aelodau bwrdd** cwmnïau mwy o faint yn fenywod ymhen pum mlynedd.
- Yn cyflwyno **absenoldebau mamolaeth a thadolaeth** fwy hael.
- Yn gwario £1bn y flwyddyn ar wella ac ehangu **Canolfannau Plant Cychwyn Cadarn**, gan greu 10,000 o swyddi. Profwyd bod Cychwyn Cadarn yn gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i fywydau rhai o'n plant tlotaf.
- Yn cefnogi **Isafswm Cyflog Cenedlaethol sy'n gyflog byw**, ar 60% o'r enillion cyfartalog cenedlaethol net (ar hyn o bryd byddai hyn yn golygu isafswm cyflog o £8.10 yr awr). Bydd y polisi hwn yn arwain at amcangyfrif cynilion o hyd at £6bn y flwyddyn mewn Credydau Treth, a chynilion pellach sydd heb eu mesur fan hyn ar Dreth y Cyngor a Budd-daliadau Tai.
- Yn gweithio tuag at sicrhau nad yw **uchafswm cyflog** unrhyw sefydliad yn fwy na deg gwaith yr isafswm cyflog yn y sefydliad hwnnw.
- Yn sicrhau nad oes unrhyw un yn cael ei **orfodi i ymddeol** cyn y byddant yn dymuno gwneud.
- **Yn gwrthod gweithles** (*workfare*) a gorfodi pobl ddi-waith i swyddi anaddas trwy dynnu budd-daliadau.
- Yn cynyddu'r symiau y gall pobl ar fudd-daliadau eu hennill mewn ffordd radical, efallai i'r hyn sy'n gyfwerth â 6 awr o waith yn ôl yr isafswm cyflog **('anwybyddiad enillion'**), heb orfod tynnu eu budd-daliadau'n ôl. Cymryd rhan yn onest yn y gwaith rhan-amser hwnnw yw'r llwybr gorau yn ôl i gyflogaeth.
- Yn cynnal yr hawl i ymuno neu ffurfio **undeb llafur**, i gael cynrychiolaeth undeb ac i weithredu'n ddiwydiannol a diddymu deddfau undeb gwrth-fasnach.
- Yn cefnogi undebau yn eu rolau fel **cynrychiolwyr iechyd a diogelwch ac amgylchedd**.
- Yn sicrhau bod **hawliau'r gweithwyr** yn berthnasol i weithwyr rhan-amser, achlysurol a'r hunangyflogedig ac o ddiwrnod cyntaf y gyflogaeth.
- **Yn gwrthwynebu gwahaniaethu yn y gweithle**, boed ar sail rhyw, hil, statws neu gyfrifoldebau teuluol, anabledd, cyfeiriadedd rhywiol, cred grefyddol neu oedran.

- Yn gwerthfawrogi ac yn diogelu **gofalwyr** a gwirfoddolwyr.
- Yn sicrhau bod cymorth yn symud tuag at **ddemocratiaeth y gweithle** ac yn sicrhau bod gweithwyr a chyn gweithwyr yn rheoli eu cronfeydd pensiwn.
- Yn cefnogi mwy o rôl i **gwmnïau cydfuddiannol**, fel **cwmnïau cydweithredol gweithwyr**.

Yn benodol, atal mwy o gwmnïau cydfuddiannol presennol rhag cael eu newid yn gwmnïau, ystyried adfer Northern Rock i'r sector cydfuddiannol a chyflwyno proses lle gall sefydliad gael ei droi'n gydfuddiannol dan rai amgylchiadau os bydd ei weithwyr neu gwsmeriaid yn dymuno gwneud hynny. Cais cyntaf am y broses olaf hon fyddai **clybiau pêl-droed**.

Nid yn unig y mae'n polisi ynni y gorau ar gyfer newid mewn hinsawdd – mae hefyd yn cynhyrchu nifer fwyaf y swyddi:

FFYNHONNELL YNNI	**SWYDDI Y FLWYDDYN FESUL AWR TERAWATT**
Gwynt	918-2400
Glo	370
Nwy ac olew	250-265
Niwclear	75

Ond yr enillydd go iawn o ran creu swyddi yw effeithlonrwydd ynni, fel ein cynigion ar gyfer inswleiddio. Amcangyfrifwyd y byddai cynnydd o 1% y flwyddyn mewn effeithlonrwydd ynni, a gynhelir dros gyfnod o ddeng mlynedd, yn creu 200,000 o swyddi ychwanegol yn yr UE o'i cynnal dros ddeng mlynedd.

Cynghorwyr Gwyrdd yn Norwich yn amddiffyn gwasanaethau lleol

Gan weithio gyda'r trigolion lleol, ymgyrchodd ymgeisydd Seneddol De Norwich, Adrian Ramsay a Chynghorwyr Gwyrdd eraill Norwich yn llwyddiannus i stopio'r Cyngor Sir rhag cau meithrinfa Cychwyn Cadarn ar Wolfe Road yn Thorpe Hamlet. Mae canolfannau Cychwyn Cadarn yn cynnig cymorth hollbwysig i rieni a'u plant ifanc. Mae'r Blaid Werdd yn gweithio i'w diogelu rhag toriadau pellach.

Lles

Gadewch i ni ddechrau gyda phensiynau boddhaol

Ar ôl 13 blynedd o lywodraeth gan Lafur, mae gennym lefelau annerbyniol o dlodi o hyd. Mae'n hynod dramgwyddus fod 25% o bensiynwyr ac 20% o blant yn parhau i fyw mewn tlodi. Mae ein system les wichlyd yn mynd yn fwyfwy cymhleth wrth iddi geisio llenwi'r bylchau, ac eto mae'n aml yn methu cyrraedd y sawl a chanddynt hawl i fudd-daliadau ond nad ydynt yn eu hawlio.

Yn y tymor hwy, mae angen diwygiad sylfaenol, lle caiff y rhan fwyaf o'r budd-daliadau, profion modd a'r cyfraniadau cymhwyso cymhleth eu diosg, a bod pob dinesydd yn cael hawl i Incwm Dinesydd fel incwm sylfaenol. Byddai cost hwn yn cael ei adfer trwy system treth incwm mwy blaengar. Cydnabyddwn fel y mae cyflwr materion y pwrs cyhoeddus ar hyn o bryd, nid dyma'r adeg i gyflwyno cynllun o'r fath. Fodd bynnag, gallwn ddechrau trwy helpu'r ddau grŵp mwyaf agored i niwed uchod, gyda chynllun Pensiwn Dinesydd boddhaol a chynnydd mawr mewn Budd-dal Plant.

Mae ein system bensiynau bresennol yn warthus. Rydym yn talu pensiwn gwladwriaeth annigonol (dim ond £97.65 yr wythnos am bensiwn gwladwriaeth llawn i berson sengl), nad yw ei lefel yn gysylltiedig ag enillion cyfartalog (ac nad yw'n cael ei uwchraddio o gwbl i bensiynwyr y DU sy'n byw dramor mewn rhai gwledydd). Mae'n dibynnu ar gofnod yr unigolyn o gyfraniadau, gan wahaniaethau'n benodol yn erbyn menywod, ond hefyd yn erbyn pobl eraill gyda chofnod o gyfraniadau gwael fel y rhai gydag iechyd gwael neu gofnod gwaith toredig, neu'r rhai sydd wedi bod yn ofalwyr. Mewn theori, caiff hyn ei ychwanegu ato gan Gredydau Pensiwn prawf modd, sy'n gwahaniaethu yn erbyn unrhyw un gyda chynilion gweddol o faint, gan greu diffyg cymhelliad enfawr i gynilo i ddarparu i chi'ch hun. Mae cynifer ag un ym mhob pedwar pensiynwr yn byw mewn tlodi.

Cyflwyno Pensiwn Dinesydd

Mae angen system newydd o Bensiynau Dinesydd arnom. Byddai'r Pensiwn Dinesydd yn cael ei dalu'n ddiamod i holl bensiynwyr y DU (yn annibynnol ar y cofnod o gyfraniadau) ar gyfradd y llinell tlodi swyddogol (ar hyn o bryd £170 yr wythnos i rywun sy'n byw ar ei ben ei hun a byddai'r gyfradd yn £300 yr wythnos i gyplau) a byddai'n gysylltiedig â'r enillion cyfartalog. Byddai hefyd yn cael ei dalu i'r un filiwn o bensiynwyr sy'n byw dramor ac yn cael ei uwchraddio iddynt. Bydd y Budd-dal Tai a'r budd-daliadau anabledd yn parhau i gael eu talu. Byddai'r Credydau Pensiwn diraddiol yn cael eu diddymu.

Amddiffyn trigolion tai gwarchod yn erbyn toriadau mewn gwasanaethau

Ym mis Rhagfyr 2008, unodd Cynghorwyr Gwyrdd Brighton a Hove gyda'r trigolion lleol i amddiffyn y gwasanaethau a ddarperir i'r sawl sy'n byw mewn Tai Gwarchod. O ganlyniad, gorfodwyd Cyngor Dinas Brighton a Hove i ollwng eu cynlluniau i newid i ddull cymorth 'arnofio' i denantiaid tai gwarchod a fyddai wedi golygu gostyngiad yn nifer y rheolwyr cynllun 'ar y safle'.

Sut byddwn yn talu am Bensynau Dinasyddion

Mae oddeutu 12 miliwn o bensiynwyr yn byw yn y DU ac mae 1 miliwn pellach yn byw tramor

Bydd talu cyfradd sengl o £170 yr wythnos a chyfradd cyplau o £300 yr wythnos yn costio £110 biliwn y flwyddyn.

Ond mae pensiwn sylfaenol y wladwriaeth eisoes yn costio £56 biliwn, a phan fydd rhai budd-daliadau penodol eraill i bensiynwyr fel y Credydau Pensiwn sy'n cael eu talu i'r sawl o oed pensiwn yn cael eu diddymu , bydd cyfanswm o bron £70 biliwn yn cael ei arbed.

Mae hynny'n gadael £40 biliwn i ddod o hyd iddo. Mae diddymu gostyngiadau yn y dreth ar gyfraniadau pensiwn yn codi £20 biliwn, a byddai £19 biliwn ychwanegol yn dod o ddiddymu cyfraniadau yswiriant gwladol cyflogwyr ac ad-daliadau Yswiriant Gwladol gweithwyr sy'n gysylltiedig â chynlluniau pensiwn.

Bydd yr £1 biliwn terfynol yn dod o gynnydd mewn derbyniadau treth incwm gan bensiynwyr. Gan fod nifer y pensiynwyr yn graddol godi, a byddwn yn cysylltu lefel y pensiwn ag enillion cyfartalog, bydd Pensiwn y Dinesydd yn costio £0.8 biliwn pellach erbyn 2013-14. Caiff y ffigur hwn ei gynnwys yn ein ffigurau ar gyfer treth gyffredinol.

Yn ogystal, bydd arbedion (heb eu mesur fan hyn) ar Fudd-daliadau Treth Gyngor a Budd-daliadau Tai.

Ac mae'n iawn gwneud rhywbeth arwyddocaol am dlodi plant hefyd. Yn hytrach nag ychwanegu ymhellach at y system Credydau Treth Plant cymhleth a phrawf modd, yn syml byddwn yn fwy na dyblu'r taliad Budd-dal Plant presennol a chyffredinol, gan dalu £20 yn ychwanegol bob wythnos, a fyddai'n drethadwy, i bob plentyn. Byddai hyn yn costio £14bn pellach y flwyddyn, y byddai llawer ohono'n cael ei adennill gan gynnydd mewn treth ar y mwyaf cefnog.

Chwarae teg i ofalwyr cymdeithasol

Darperir cyfran helaeth o ofal cymdeithasol y DU gan ofalwyr teuluol nad ydynt yn cael eu talu sy'n arbed £87bn y flwyddyn i'r GIG. Mae'r Lwfans Gofalwyr yn gaethiwed capio incwm. 'Budd-dal Sinderela' yw'r Lwfans Gofalwyr a delir i ofalwyr teuluol 16 oed neu'n hŷn: nid yw £53.10 am isafswm ymrwymiad o 35 awr yr wythnos yn fawr o iawndal.

Nid yw gofalwyr plant o dan 16 oed yn cael dim byd o gwbl. Efallai mai nhw yw ein gweithwyr plant mwyaf agored i niwed, sydd yn aml yn gweithio oriau hir iawn ac yn cario beichiau emosiynol ymhell y tu hwnt i'w hoedran. Nid yw'r plant hyn yn cael unrhyw gymorth ariannol ac mewn llawer o achosion yn gweithio oriau hwy na'u cymheiriaid hŷn. Yn aml, caiff eu gwersi a'u haddysg eu cyfaddawdu ac yn syml nid yw rhai ohonynt byth yn cael y cyfle i 'chwarae'.

Mae'r Blaid Werdd yn ymroi i:

- Lwfans Gofalwyr mwy **hael**, a gynyddir gan 50% i £80 yr wythnos.
- Cynnig **cymorth** i'r bobl sydd am roi gofal, gan gydnabod eu sefyllfa allweddol wrth gynyddu swm y gofal sydd ar gael.
- **Cau'r gagendor** rhwng gwasanaethau cymdeithasol oedolion a phlant a grëwyd gan Lafur Newydd.
- Darparu mwy o **wyliau byr** i deuluoedd, gan gynnwys pobl anabl neu'r sawl gydag afiechydon tymor hir. Dangoswyd bod cynlluniau ymyrraeth gynnar yn arbed arian trwy atal argyfyngau.
- Gwella **amodau gwaith** i staff proffesiynol ar bob lefel, gan dalu am amser paratoi a dilyn drwodd, yn ogystal ag amser cyswllt, a darparu mwy o hyfforddiant mewn swydd i helpu ymdopi â'r sbectrwm helaeth o ofynion defnyddwyr gwasanaeth.
- Cychwyn **archwiliadau iechyd y gweithlu** fel a hyrwyddwyd gan UNSAIN.
- Diddymu'r **Ddeddf Diwygio Lles (2009)** gormesol fel rhaghanesyn i gefnogi pobl trwy ddatblygiad gydol oes ar gyfer eu lles eu hunain a lles y blaned.
- Canslo contractau asesu **hawl i fudd-dal yr Adran Gwaith a Phensiynau** gyda'r sector preifat.
- Adfer y cyswllt rhwng budd-daliadau'r wladwriaeth ac **enillion**.
- Rhoi cyfraddau **teithio lleol** rhatach i ofalwyr ar fysus, trenau, y tiwb a thramiau.

trethi

Hybu tegwch, cynaliadwyedd a dinasyddiaeth

Nid rhestr ddymuniadau heb ei chostio mo'r maniffesto hwn. Mae'n gynllun ymarferol a realistig i symud tuag at gymdeithas fwy cyfartal, ymladd newid mewn hinsawdd a diogelu gwasanaethau cyhoeddus.

Yn wahanol i'r pleidiau eraill, dadleuwn fod y codiadau mewn trethi i'r sawl mwy cefnog yn ofynnol. Nid yw hyn yn beth gwael yn ei hun. Trethi yw'r ffioedd a dalwn fel dinasyddion arm wasanaethau a ddarperir orau ar y cyd. Yn ogystal, maent yn offeryn er tegwch. Mae'r gred ddeifiol nad yw trethi'n fwy na chasineb angenrheidiol, sydd wedi'u meithrin gan Lywodraethau olynol dros y 30 mlynedd diwethaf, wrth wraidd yr anawsterau mewn ariannu gwasanaethau cyhoeddus yn ystod yr un cyfnod.

Mae'r Blaid Werdd felly eisiau ailsefydlu trethi blaengar. Mae hyn yn gofyn am ddau beth: codi trethi'n deg a'u hesbonio'n onest. Mae cynlluniau Llafur yn dibynnu ar obaith ofer o ran pa mor gyflym y bydd yr economi a refeniw o drethi'n adfer. Maent yn amharod i ddweud wrthych am y toriadau a'r codiadau mewn trethi sydd i ddod. Bydd y Ceidwadwyr yn torri gwariant cyhoeddus, ond nid ydynt wedi rhoi cynllun gerbron sy'n adio'n ddigonol at doriadau heb godiadau treth i dorri'r diffyg.

O gymharu, mae'r Blaid Werdd yn agored am yr hyn byddwn yn ei dorri, yr hyn byddwn yn ei amddiffyn, ac am y ffaith bod angen i ni godi trethi o 36 y cant o'r Cynnyrch Mewnwladol Crynswth yn 2009-10 i oddeutu 45 y cant yn 2013. Byddai hyn yn haneru'r bwlch rhwng gwariant a refeniw'r Llywodraeth erbyn 2013-14 (fel y mae'r Llywodraeth Lafur yn cynnig) ac yn cau'r bwlch yn fwyfwy wedi hynny.

Ffafriwn dreth 'Robin Hood' – treth ar drafodion ariannol (gweler tudalen 47) – ond oherwydd y byddai hynny'n gweithio orau gyda chytundeb rhyngwladol eang nid ydym yn dibynnu arno i lenwi'r bwlch ym materion ariannol y Llywodraeth, ond credwn fod cwmpas hefyd i weithredu'n unochrog trwy gyflwyno treth ar drafodion cyfnewid arian sterling dramor a dylai'r DU ddangos arweinyddiaeth fyd-eang.

Mae ein newidiadau mewn trethi'n perthyn i ddau grŵp – y sawl sy'n cau'r bwlch rhwng y cyfoethog a'r tlawd, a'r rhai sy'n atal gweithgarwch niweidiol i'r amgylchedd gan mwyaf.

TRETHI I LEIHAU ANGHYDRADDOLDEB

Cefnogwn dreth arbennig ar **fonysau'r bancwyr**, ond byddem yn ei wneud yn barhaol. Yn ogystal, ni ddylai unrhyw un o'r banciau dan berchenogaeth y wladwriaeth yn gyfan gwbl neu'n rhannol gael bonws o dros £25,000. A bydd ein newidiadau i ostyngiadau ar dreth pensiynau (gweler y blwch ar dudalen 13) yn gostwng yn radical y manteision enfawr y mae'r system bensiwn bresennol yn eu rhoi i'r rhai mwyaf cyfoethog.

Ond megis dechrau yw hyn. Byddwn hefyd yn:

- Cyflwyno'r gyfradd uwch newydd o **dreth incwm ar 50% ar gyfer incymau uwchlaw £100,000**, gan godi £2.3bn y flwyddyn.
- Diddymu'r **terfyn uchaf ar gyfer cyfraniadau Yswiriant Gwladol**, gan godi £9.1 bn yn 2010.
- Helpu enillwyr is trwy **godi'r terfyn Yswiriant Gwladol is** i'r gyfradd lwfans personol (sef £6,475 y flwyddyn neu £124.52 yr wythnos), sy'n costio £3.9bn.
- Helpu enillwyr is trwy **ailgyflwyno'r band treth 10% a'r gyfradd sylfaen 22c**, gan gostio £14.9bn.
- **Cynyddu prif gyfradd y Dreth Gorfforaeth** o 28% yn ôl i 30% a lleihau cyfradd y cwmnïau bach i 20%, gan godi cyfanswm o £1.4bn.
- **Codi cyfradd y Dreth Enillion Cyfalaf** o 18% i gyfradd treth incwm uchaf y derbynnydd (hynny yw 22%, 40% neu 50%) gan godi £1bn.
- **Diwygio treth etifeddiant**, er mwyn i lefel y dreth ddibynnu ar gyfoeth y derbynnydd yn hytrach na'r marw, gan godi £3bn erbyn 2013. Bydd hyn yn annog pobl i ddosbarthu eu heiddo ar raddfa eang.
- **Torri i lawr ar lochesi rhag treth** a dulliau eraill o osgoi treth , gan godi £10bn yn 2010 a fydd yn codi i £13bn erbyn 2013. Yn benodol, pwyso am safon gyfrifo ryngwladol dryloyw sy'n gofyn i gwmnïau adrodd ar sail gwlad wrth wlad er mwyn gallu gweld a threthu eu helw.
- **Diwygio'r Dreth Gyngor** trwy wneud i bobl mewn tai drutach dalu mwy a'r rhai mewn tai llai o faint i dalu llai, gan ychwanegu band ychwanegol ar y brig i'r tai mwyaf, gan godi £1.7bn. Yn y tymor hir, ffafriwn symud i system o Dreth Gwerth y Tir, lle mae lefel y dreth yn dibynnu ar werth rhentu'r tir dan sylw.

TRETHI I DDIOGELU'R AMGYLCHEDD

Byddwn yn diwygio'r system dreth i roi llawer mwy o bwyslais ar drethi sy'n atal ymddygiad amgylcheddol neu niweidiol arall. Petai'r newidiadau hyn yn cael eu gweithredu, byddai cyfran y trethi amgylcheddol mewn cyfanswm trethi yn dyblu o ryw 7 y cant nawr i 14 y cant yn 2013. Mae rhai o'r cynigion hyn yn golygu codi'r trethi presennol, mae rhai'n drethi newydd ac mae rhai'n diwygio'r eithriadau a'r gostyngiadau presennol i gyflawni dibenion amgylcheddol. Yn y tymor hir, anelwn at ddisodli TAW gyda threthi amgylcheddol ond nid yw cyflwr presennol y materion ariannol cyhoeddus yn caniatáu i hyn yn y tymor byr.

Cydnabyddwn hefyd y gallai rhai o'r newidiadau hyn, er enghraifft ar TAW neu osod treth tanwydd ar hedfan, olygu trafod ar lefel ryngwladol ac ni ellir eu cyflwyno'n syth.

Byddwn yn:

- **Ailgyflwyno'r gris treth tanwydd**, gan godi'r dreth tanwydd 8% y flwyddyn. Bydd hyn yn codi £2.2bn yn 2010 a fydd yn codi i £10bn erbyn 2013. Yn y tymor hwy, byddwn yn cyflwyno system o gwotâu carbon domestig.
- Diwygio'r gyfundrefn **lwfansau Cyfalaf Treth Gorfforaeth** er mwyn i'r lwfansau fod ar gael ar gyfer buddsoddi mewn technolegau cynaliadwy yn unig, gan godi £7bn yn 2010 a fydd yn codi i £10bn erbyn 2013.
- Cyflwyno **TAW a threth tanwydd ar hedfan**, gan godi £7bn yn 2010 a £10bn erbyn 2013.
- Codi'r cyfraddau ar gyfer yr **Ardoll Newid mewn Hinsawdd** ac ar gyfer **Treth Tirlenwi**, gan godi £300m.
- **Dod â diwedd i'r gyfradd TAW o sero** ar anheddau newydd, a'u rhoi nhw ar yr un lefel â thrawsnewidiadau ac adnewyddiadau i anheddau presennol, gan godi £5bn yn 2010 a £7.5bn erbyn 2013.
- Trethu bagiau plastig a **phecynnau** diangen arall, gan godi £1bn o bosibl erbyn 2013.
- **Codi eco-drethi** ar ynni anadnewyddadwy neu lygryddion, yn enwedig plaleiddiaid, organoclorinau, nitrogen a gwrteithiau a ffosffadau artiffisial.
- Cyflwyno trethi newydd ar **ddefnyddio dŵr** gan fusnesau a **gwres gwastraff** o orsafoedd pŵer, gan godi £3bn erbyn 2013.
- **Disodli'r treth car** gyda threth prynu graddedig newydd ar gerbydau sy'n cosbi'n drwm gerbydau rhy fawr neu gyda gormod o bŵer. Ar y cyfan, byddai hyn yn niwtral o ran treth.
- Gwneud consesiynau treth ar gynilion, fel ISAs, sydd ond ar gael ar gyfer buddsoddi mewn **technolegau cynaliadwy**, gan godi £1.8bn.
- **Peidio â chynnig cyfradd TAW o sero i wasanaethau ariannol a threthi betio**, sydd o werth cyfyngedig i'r economi go iawn, gan godi £5.6bn erbyn 2013.
- Graddol **gynyddu trethi alcohol a thybaco** gan ryw 50% i gyfateb i godiadau disgwyliedig mewn gwariant ar y GIG, gan godi £1.4bn yn 2010 a fydd yn codi i £5.6bn erbyn 2013.

O'u rhoi at ei gilydd, mae'r newidiadau hyn mewn treth yn ddigon i dalu am y rhaglen gyfan a osodir yn y maniffesto hwn, a hefyd i fwy na haneru'r diffyg fel cyfran o'r Cynnyrch Mewnwladol Crynswth erbyn 2013, gan osod yr economi ar lwybr a fydd bron yn dileu'r diffyg erbyn diwedd y Senedd. Mae'r manylion o ran sut byddwn yn talu am ein rhaglen wedi'u nodi yn y blwch gyferbyn.

Sut byddwn yn talu am ein rhaglen

Mae sawl ymrwymiad i wario yn y maniffesto hwn. A cheir cynigion ar gyfer trethi newydd a chodiadau mewn trethi (gweler tudalennau 14-16). Ydy popeth yn adio i fyny, ac yn benodol a fydd y cyfanswm yn fwy na haneru'r diffyg erbyn 2013-14?

Yn gryno, mae ein cynlluniau, o gymharu â rhai'r Llywodraeth Lafur (fel a gyhoeddwyd yn Adroddiad y Gyllideb 2010), fel a ganlyn (y cyfan mewn termau gwirioneddol 2010):

EITEM		**2010** £ biliynau	**2013** £ biliynau
1	Gwariant cyhoeddus bwriadedig y Llywodraeth Lafur	704	700
2	Derbyniadau treth disgwyliedig y Llywodraeth Lafur	541	617
3	Diffyg cyllidol y Llywodraeth Lafur i fenthyg*	163	82
4	Gwariant cyhoeddus sylfaenol arfaethedig y Blaid Werdd	704	704
5	Ychwanegiadau net at wariant cyhoeddus yn y maniffesto hwn	72	80
6	Cyfanswm gwariant cyhoeddus arfaethedig y Blaid Werdd**	776	784
7	Derbyniadau treth disgwyliedig y Blaid Werdd ar gynlluniau treth presennol y Llywodraeth	541	603
8	Trethi ychwanegol net arfaethedig yn y maniffesto hwn	73	112
9	Cyfanswm trethi arfaethedig y Blaid Werdd†	614	714
10	Diffyg cyllidol arfaethedig y Blaid Werdd i fenthyg≠	162	70

Nodiadau: *Eitem 1 – eitem 2. **Eitem 4 + eitem 5. †Eitem 7 ac eitem 8. ≠Eitem 6 – eitem 9. Hwyrach na fydd y ffigurau'n adio i fyny'n union yn sgil talgrynnu. Yn eitem 7, mae ffigur y Blaid Werdd ar gyfer derbyniadau treth ar bolisïau treth presennol yn 2013 yn is na'r un ar gyfer rhagdybiaeth y Llywodraeth Lafur yn eitem 2 oherwydd tybiwn gyfradd is o dwf y Cynnyrch Mewnwladol Crynswth. Sylwch fod cynlluniau benthyca'r Blaid Werdd yn eitem 10 yn is na chynlluniau'r llywodraeth Lafur yn eitem 3.

Byddwn yn rhewi gwariant sylfaenol y Llywodraeth i £704bn (eitem 4 uchod). Byddai ein rhaglen o wariant ychwanegol a thoriadau dethol (a osodir isod) yn adio £72bn yn 2010 gan godi i £80bn yn 2013 (eitem 5 uchod). Credwn fod rhagamcaniadau'r Llywodraeth ar gyfer twf y Cynnyrch Mewnwladol Crynswth yn rhy uchel, a bydd y derbyniadau treth ar bolisïau presennol yn 2013 yn £603bn yn unig (eitem 7 uchod), £14bn yn llai na £617bn tybiedig y Llywodraeth (eitem 2 uchod).

O ran gwariant y Llywodraeth, mae gennym yn y lle cyntaf raglen gymedrol o gynilion sy'n gwneud cyfanswm o £20bn yn 2010 gan godi i £28bn yn 2013. Byddwn yn arbed £8bn ar amddiffyn yn 2010 gan syrthio i £6bn yn 2013 (gan gynnwys torri Trident; gweler tudalen 43), £1bn i ddechrau gan godi i £3bn ar adeiladu ffyrdd (tudalen 38), £2.5bn ar gardiau adnabod a £0.5bn gan godi i £1.5bn ar garchardai (tudalennau 24 a 26). Credwn fod arbedion effeithlonrwydd blynyddol cronnol cymedrol o 0.5% ar 60% o wariant y Llywodraeth yn bosibl, gan arbed £2.3bn yn 2010 a fydd yn codi i £9.4bn yn 2013. Yn ogystal, byddai ein polisi isafswm cyflog yn arbed rhyw £6bn y flwyddyn ar gredydau treth ar hyd y cyfnod.

Ar wahân i'r Pensiwn Dinesydd, mae gennym raglen o wariant ychwanegol sy'n gwneud cyfanswm o £52bn a fydd yn codi i £64bn yn 2013. Y prif eitemau yw cynnydd o £20 yr wythnos mewn Budd-dal Plant (£14bn; tudalen 13), buddsoddiad mewn cludiant cyhoeddus (£4bn, gan godi i £5bn; tudalen 38), tai cymdeithasol a hawl i rentu (£4bn; tudalen 20), gofal i'r henoed (£3bn yn 2010 gan godi i £8bn erbyn 2013; tudalen 22), ynni adnewyddadwy ac inswleiddio (£5bn gan godi i £10bn yn 2013; tudalennau 20, 35), cynnydd yn y gyllideb cymorth (£3bn yn 2010 gan godi i £4.5bn; tudalen 48),rhaglenni hyfforddiant a chymunedol i'r di-waith (£5bn, ond yn ddiangen erbyn 2013; tudalen 10), buddsoddiad mewn rheoli gwastraff (£3bn y flwyddyn; tudalen 26), diddymu ffioedd addysg uwch (£1.8bn yn 2010, ond £3.6bn mewn blynyddoedd diweddarach; tudalen 21), a rhyw £9bn gan godi i £12bn ar gyfer yr 14 ymrwymiad llai, y mae'r cyfan yn golygu £1bn neu lai yn 2010.

O ran gwariant cyhoeddus, bydd y Pensiwn Dinesydd yn costio £40bn ychwanegol gan godi i £44bn, felly bydd y cynnydd cyffredinol mewn gwariant cyhoeddus yn £40bn (Pensiwn Dinesydd) a £52bn (cost gros y maniffesto) llai £20bn (cynilion gwariant cyhoeddus), neu £72bn (fel yn eitem 5 uchod). £80bn yw'r ffigur cymaradwy ar gyfer 2013 yw £80bn.

Caiff ein cynigion ar drethi eu nodi ar dudalennau 14 i 16, lle mae'n glir y bydd y cynigion hyn, ynghyd â'r newidiadau i'r dreth ar y Pensiwn Dinesydd, yn ychwanegu £73bn yn 2010 a £112bn yn 2013 (eitem 8 uchod).

2

Bywyd Pob Dydd

byw yn lleol

Mae ansawdd ein bywydau'n dibynnu cryn dipyn ar ein gwasanaethau lleol. Nid yw'r un ohonom eisiau teithio milltiroedd i fynd i'r ysgol neu i weld meddyg. Rhaid i wasanaethau fod o fewn cyrraedd. Mae hyn yn golygu bod yn rhaid iddynt fod yn hawdd ac yn fforddiadwy i'w cyrraedd trwy gludiant cyhoeddus – ac o fewn pellter cerdded mewn ardaloedd trefol. Yn ogystal, mae'n gwneud synnwyr amgylcheddol i gael gwasanaethau lleol da. Mae llai o deithio'n golygu llai o garbon.

Mae pob un ohonom yn byw mewn cymunedau lleol o ryw fath neu'i gilydd. Mae ein cymunedau yn lleoedd lle rydym yn gweithredu pan fyddwn am wneud pethau, pan fyddwn am newid pethau, pan fyddwn am wneud gwahaniaeth. Dyma pam y mae'r Blaid Werdd yn credu y dylid penderfynu ar faterion ar lefel leol pan fo hynny'n bosibl. Datganoli ac adleoli. Ymddiried mewn dinasyddion i wneud y newid.

Rhaid i'r gwasanaethau allweddol fod am ddim pan gânt eu cyflwyno. Cred y Blaid Werdd y dylem dalu am y gwasanaethau hyn gyda system dreth sy'n hybu tegwch ac yn gwobrwyo ymddygiad sy'n dda i gymdeithas ac yn dda i'r amgylchedd.

Bydd y Blaid Werdd yn gwyrdroi'r duedd tuag at ryddfrydoli, preifateiddio a dadreoleiddio gwasanaethau a chyfleustodau cyhoeddus. Rhaid i'r gwasanaethau fod ar gael yn hawdd i bawb y mae arnynt eu hangen. Mae'r tlawd a'r rhai sy'n agored i niwed yn dioddef mwyaf pan fyddant ymhell i ffwrdd neu'n rhy ddrud, ond caiff pob un ohonom ein heffeithio gan y ffabrig cymdeithasol a diwylliant cyffredin y mae gwasanaethau cyhoeddus da yn eu cynrychioli yn cael eu tanseilio. Mae'r Fenter Cyllid Preifat yn benodol wedi bod yn gynllun cymorth allanol enfawr i gontractwyr preifat, sy'n gyfwerth â'r ffolineb o brynu'ch tŷ gyda cherdyn credyd. Byddem yn dod â hynny i ben.

Mae'r Blaid Werdd yn gwrthwynebu'r duedd tuag at ysgolion, ysbytai, cynghorau a charchardai mwy o faint, a chanoli mwy o feddygfeydd a Swyddfeydd Post. Prynir nifer fawr o'r arbedion effeithlonrwydd dywededig hyn am gost gymdeithasol uchel: unigedd, anhygyrchedd, diffyg personoliaeth, pellenigrwydd. Yn ogystal, maent yn gwneud ein cymunedau'n llai abl i ymdopi â newid. Rhaid i'r cymunedau a'r gwasanaethau fod ar raddfa ddynol. Mae maint yn cyfrif. Mae gwasanaethau lleol o ansawdd yn llawer pwysicach na chael dewis gwan rhwng nifer o rai pell.

Ymgeisydd Lewisham Deptford, y Cynghorydd Darren Johnson, yn atal toriadau mewn gwasanaethau cymdeithasol

Mae'r Gwyrddion wedi ymgyrchu'n galed i amlygu a gwrthwynebu unrhyw ymdrechion i dorri gwasanaethau i bobl agored i niwed yn Lewisham. Yn 2007, llwyddasant i gael £1.8m o doriadau wedi'u gwyrdroi a pherswadiwyd y Maer i wrthod yr un cynigion yn 2008.

Byddai AS Gwyrdd yn Lewisham Deptford yn cael hyd yn oed mwy o ddylanwad wrth ymladd toriadau.

gwasanaethau

Hyrwyddo'r hyn sy'n lleol, effeithlonrwydd a mynediad

Byddwn:

- Yn ailagor y **Swyddfeydd Post** hynny y mae polisi camarweiniol y Llywodraeth wedi'u cau, ac yn y pen draw yn cynyddu'r nifer ohonynt. Byddwn yn rhoi £1bn y flwyddyn naill ochr i roi cymhorthdal i'r rhwydwaith Swyddfeydd Post lleol.
- Yn annog **sector ariannol newydd, lleol a chilyddol**, sy'n seiliedig ar ymddiriedaeth yn hytrach na thrachwant, ac sy'n cynnwys **banciau cymunedol**, undebau credyd, cynlluniau cyfnewid lleol ac arian lleol. Byddwn yn darparu cyllid cychwynnol o £2.5bn dros y Senedd nesaf i gynorthwyo cymunedau wrth sefydlu'r rhwydwaith hwnnw.
- **Yn dod â diwedd i gontractio a'r Fenter Cyllid Preifat (PFI).** Adfer y syniad o ymrwymiad i fasnachau cyhoeddus a diwydiannau. Mae staff ymroddedig sy'n darparu gwasanaeth cyhoeddus yn llawer mwy tebygol o gyflwyno gwasanaeth da na staff asiantaeth gyda chontractau gwaith gwael a throsiant uchel.
- **Yn cefnogi siopau lleol** trwy bolisïau cynllunio gan gynnwys ardaloedd cadwraeth busnes, sicrhau bod siopau sylfaenol ar gael o fewn pellter cerdded i bob ardal drefol a chyfyngu ar rym archfarchnadoedd.
- Yn gwarchod ysgolion a llyfrgelloedd, ysbytai a chyfleusterau iechyd eraill **llai o faint yn lleol**.
- Yn sicrhau bod cludiant cyhoeddus yn darparu **mynediad** i gyfleusterau lleol.
- Yn cefnogi **marchnadoedd lleol** gan roi mynediad i **fwyd lleol**.
- Yn annog **perfformiadau byw lleol yn y celfyddydau** trwy symud cyllid o lefel ranbarthol i leol a diwygio'r rheoliadau er mwyn peidio â chyfyngu ar berfformiadau byw graddfa fach mewn tafarndai a mannau tebyg.

tai

Hyrwyddo fforddiadwyedd a chynaliadwyedd

Byddwn:

- Yn adfer buddsoddi uniongyrchol mewn **tai cyngor a thai cymdeithasol eraill** ac yn galluogi awdurdodau lleol i ddefnyddio arian o werthiant i ariannu adeiladau fforddiadwy newydd. Yn arbennig, wrth i'r grefft adeiladu barhau'n ddirwasgedig oherwydd y dirwasgiad byddwn yn darparu £2bn yn 2010 gan godi i £4bn yn 2011 i awdurdodau lleol ehangu ar dai cymdeithasol, yn bennaf trwy drawsnewid ac adnewyddu, ac yn creu 80,000 o swyddi.
- Mae oddeutu un filiwn o **gartrefi gwag**. Hanerwn y nifer hon gan orchmynion defnydd o eiddo gwag.
- Yn darparu **mwy o hawliau i bobl ddigartref**, gan roi i awdurdodau lleol yr un dyletswyddau o ran pobl sengl a chyplau heb blant ag i deuluoedd, ac yn dod â'r arfer o ddatgan pobl yn 'fwriadol ddigartref' i ben.
- Yn cymryd camau i sicrhau y caiff **datblygiad ei ddosbarthu'n fwy cyfartal** ar draws y wlad gyfan, ac felly'n lleihau'r pwysau ar dai yn y De Ddwyrain yn benodol.
- Yn dod â'r hawl i brynu i ben ac yn cyflwyno'r **hawl i rentu**. Dylai fod gan bobl sy'n wynebu anawsterau difrifol wrth dalu eu morgais ac sy'n wynebu adfeddiant gael hawl i rentu eu cartref presennol fel tŷ cyngor, sy'n debyg ond yn groes i 'hawl i brynu'r' Torïaid. Byddwn yn sicrhau bod hyd at £2bn y flwyddyn ar gael i awdurdodau lleol gefnogi'r 'hawl i rentu'.
- Yn lleihau llechfeddiant ar '**safleoedd maes glas'** heb eu datblygu lle bo'n bosibl trwy ailddefnyddio safleoedd a ddatblygwyd yn flaenorol ac nad ydynt bellach yn cael eu defnyddio.
- Yn cyflwyno rhaglen **inswleiddio'r cartref am ddim** i bob cartref y mae arnynt ei angen, gan roi blaenoriaeth i bensiynwyr a'r rhai sy'n byw mewn tlodi tanwydd, gan anelu at inswleiddio 4 miliwn o gartrefi bob blwyddyn. Byddai'r rhaglen honno'n costio £2bn yn 2010 gan godi i £4bn y flwyddyn ac yn creu 80,000 o swyddi.
- Yn cyflwyno cymhellion sy'n gwneud cyfanswm o £2bn y flwyddyn i annog cartrefi i ddod yn fwy **ynni hunangynhaliol** trwy anelu at gael 1,000,000 o doeon solar, ac yn cefnogi tariffau bwydo hael i ficro-gynhyrchu, gan greu 40,000 o swyddi yn y diwydiannau gosod.
- **Yn diddymu ffioedd sefydlog** ar filiau tanwydd ac yn gosod tariffau i ffafrio defnyddwyr llai.
- Yn gosod rheoliadau adeiladu sy'n gofyn am **safonau ynni rhagorol** ar system seiliedig ar bwyntiau, a fydd yn talu am ynni corfforedig o ddeunyddiau adeiladu, ynni a ddefnyddiwyd wrth adeiladu, y defnydd o ynni, cynhyrchu ynni ar y safle a defnyddio rhwydweithiau dosbarthu gwres.

Gwyrddion yn cael profiad go iawn o redeg cynllun inswleiddio am ddim

Gweithiodd Cynghorwyr Gwyrdd yn Kirklees mewn partneriaeth â chwmnïau ynni i ddarparu inswleiddio am ddim i gartrefi yn Kirklees, Swydd Efrog, mewn cynllun sydd wedi creu dros 128 o swyddi a chyfleusterau hyfforddiant newydd. Costiodd y cynllun £20m dros dair blynedd, a'i nod yw inswleiddio cyfanswm o 40,000-60,000 o gartrefi.

- Yn cynyddu'r swm di-dreth ar y **cynllun 'Rhentu Ystafell'** o £4,250 i £9,000 y flwyddyn. Byddai hyn yn gostwng adfeddiannau, yn darparu mwy o dai fforddiadwy ac yn gwneud gwell defnydd o'r stoc tai bresennol.
- Yn cefnogi cynlluniau **hunan-adeiladu** cymdeithasol ar y cyd.
- Yn derbyn y bydd newid mewn hinsawdd yn golygu na ellir diogelu rhai tai rhag **llifogydd** mewn ffordd gynaliadwy, ac yn cynorthwyo'n ariannol y rhai y daw hi'n amhosibl iddynt fyw yn eu cartrefi. Byddwn hefyd yn buddsoddi £1bn mewn amddiffynfeydd llifogydd cynaliadwy a systemau draenio cynaliadwy gan greu 20,000 o swyddi a sicrhau bod yswiriant ar gael ar gyfer llifogydd.
- Yn gwrthwynebu sefydliadau rheolaeth hyd braich newydd ac yn sicrhau **cyfranogiad tenantiaid** gwirioneddol mewn rhai presennol.
- Yn sicrhau bod **cynigion tai newydd** yn seiliedig ar arolygon annibynnol o anghenion tai. Ni ddylid cynnwys adeiladwyr tai masnachol a'u cynrychiolwyr yn y broses.

addysg

Hyrwyddo dysgu am ddim, cyhoeddus

Dylai addysg fod wrth wraidd cymunedau, a dylai hyrwyddo lles cymdeithasol ac emosiynol, cydraddoldeb, cynhwysiad a chyfrifoldeb. Mae angen mwy o ryddid ar ysgolion i fframio'r cwricwlwm o amgylch anghenion a diddordebau pobl ifanc yn yr ysgol. Dylai fod pwyslais ar ddysgu sy'n canolbwyntio ar y disgybl, sy'n darparu ar gyfer gwahanol arddulliau, diddordebau ac anghenion dysgu.

Achub caeau chwarae ysgolion yn Norwich

Mae angen caeau chwarae ar chwaraeon mewn ysgolion, sydd yn rhy aml o dan fygythiad gan ddatblygwyr. Mae Plaid Werdd Norwich ac ymgeisydd De Norwich, Adrian Ramsay, wedi ymgyrchu'n llwyddiannus i achub caeau chwarae ysgolion rhag cael eu gwerthu i'w datblygu. Mae'r Gwyrddion wedi chwarae rôl allweddol yn yr ymgyrch i achub caeau chwarae yn Ysgol Hewett ac Ysgol Blackdale Middle.

Byddwn yn:

- Sicrhau y gall y rhan fwyaf o'r plant fynychu **ysgol leol dda** gyda pholisïau derbyn a benderfynir yn lleol ac sy'n berthnasol i bob ysgol.
- Symud yn raddol i d**dosbarthiadau llai o faint** trwy wario £500 miliwn pellach ar 15,000 yn fwy o athrawon i gael dosbarthiadau i lawr i **gyfartaledd o 20 disgybl** erbyn diwedd y Senedd.
- Amddiffyn yr **ysgolion llai** presennol a chreu mwy o ysgolion llai. Mae ysgolion uwchradd mawr yn enwedig yn dieithrio, ac mae cynllun presennol y Llywodraeth i ailgodi pob ysgol uwchradd yn cynnig y cyfle perffaith i wneud hynny ar raddfa fwy dynol.
- Cyflwyno'n raddol y **diddymiad yn ffioedd dysgu'r myfyrwyr** mewn addysg uwch.
- Ehangu'n raddol ar y gofal am y rhai sy'n **iau nag oedran ysgol** dros y cyfnod.

- **Symud tuag at ddod â'r angen am addysg breifat i ben** trwy greu rhaglen o gymathu ysgolion preifat yn wirfoddol i sector y wladwriaeth. Byddai statws elusennol yr ysgolion sy'n parhau yn y sector preifat yn cael ei dynnu a byddent yn talu'r holl drethi perthnasol, fel TAW.
- **Gwaredu ar Academïau Dinas** ac Ysgolion Ymddiriedolaeth yn raddol. Mae'n ddrwg i alluogi busnesau a sefydliadau allanol eraill i gael gormod o ddylanwad ar ysgolion.
- Gadael i athrawon addysgu – **dileu'r** profion TASau sy'n parhau, a rhoi i ysgolion ac athrawon fwy o ryddid dros y cwricwlwm a addysgant.
- Darparu hanner diwrnod llawn yr wythnos o **weithgarwch corfforol** deniadol i bob plentyn, ac o leiaf un diwrnod y flwyddyn yn **dysgu** yn yr amgylchedd naturiol.
- Darparu **prydau ysgol am ddim** i bawb - gyda bwyd lleol neu fasnach deg a (lle bo'n bosibl) bwyd organig, gyda dewis llysieuol. Bydd hyn yn annog bwyta'n iach, yn brwydro yn erbyn gordewdra, yn gwella canolbwyntio ac yn dod â'r stigma sy'n gysylltiedig â phrydau ysgol am ddim i ben. Efallai bod rhai gwell ffyrdd o wario hyd at £2bn y flwyddyn, ond dim ond cyfran fach o'r swm a gaiff ei wario ar fonysau yn y ddinas yw hyn.
- Cyflwyno plant i **dechnolegau adnewyddadwy yn yr ysgol** trwy sicrhau bod y rhan fwyaf o'r ysgolion yn cael crynswth eu hynni o ffynonellau adnewyddadwy ar y safle.
- Lle mae'r **rhieni'n** dewis **addysgu eu plant adref**, byddai hyn yn cael ei gefnogi gan Awdurdodau Lleol, a fyddai'n gweithio i sicrhau bod yr holl bobl ifanc yn cael addysg eang ac amrywiol o ansawdd uchel.

iechyd

Adfer iechyd y genedl

Dylai **tosturi** mewn gofal iechyd ac **atal** salwch fod wrth flaen ein gwasanaeth gofal iechyd. Byddwn yn:

- Cynnal gwasanaeth iechyd **a ariennir yn gyhoeddus, a ddarperir yn gyhoeddus**, ac sy'n gwrthwynebu preifateiddio'r GIG a thrin gofal iechyd fel marchnad.
- **Datganoli cyfrifoldeb gofal iechyd** i lywodraeth leol, sicrhau y caiff lefelau gwasanaeth gofynnol a chanllawiau cenedlaethol eu darparu i atal loteri cod post, a gwrthwynebu canoli gwasanaeth iechyd pellach.
- **Cadw'r gwasanaeth iechyd am ddim** – diddymu ffioedd presgripsiwn, ailgyflwyno profion llygaid am ddim a thriniaeth ddeintyddol y GIG i bawb, a sicrhau bod triniaeth traed y GIG ar gael ar raddfa eang.
- Yn benodol, cynnal yr egwyddor o GIG am ddim trwy weithredu'r cynllun sy'n darparu **gofal cymdeithasol am ddim i'r henoed** yn yr Alban yng Nghymru a Lloegr. Os gall yr Albanwyr wneud hynny, gall y gweddill ohonom ei wneud hefyd. Byddai'n cael ei gyflwyno'n raddol, gan gostio tua £3bn yn 2010 gan godi i £8bn y flwyddyn a gallai greu 120,000 o swyddi.
- Sicrhau bod **pob triniaeth cost effeithiol ar gael** i bob claf y mae arno ei hangen.
- Mae **diogelwch i gleifion** yn hanfodol – byddwn yn rheoleiddio'r holl ymarferwyr a therapyddion gofal iechyd i wella hyn.
- Sicrhau bod yr holl feddyginiaethau'n bodloni'r **safonau diogelwch**, yn cael eu labelu'n gywir gyda chynhwysion ac yn dangos gwybodaeth am sgil-effeithiau.

Mae atal yn well nag iachâd, ac yn rhan o atal mae mwy o gydraddoldeb

Mae'r Blaid Werdd yn credu mewn pwyslais llawer cryfach ar atal afiechyd, trwy fyw bywydau iachach a mwy o gydraddoldeb. Mae hyn yn dangos sut, yn wahanol i'r pleidiau eraill, y caiff ein polisïau eu gwau at ei gilydd yn gyfanwaith cydlynol.

Ni allwn gael dull ataliol effeithiol, ac felly gwasanaeth 'iechyd' sy'n meddwl yn y tymor hir, oni bai yr anogwn fwyta iachach, mwy o ymarfer corff, cymdeithas straen is, sy'n byw'n arafach, gostyngiad difrifol mewn llygryddion amgylcheddol, a mwy o fynediad i gefn gwlad heddychlon. A chydnabyddwn y cysylltiad rhwng lles meddyliol a chorfforol.

Yn syml, bydd gwneud ein cymdeithas yn fwy cyfartal yn gwella ein hiechyd, heb wario ceiniog yn ychwanegol ar y GIG. Mae disgwyliad oes, marwolaeth mewn babanod, pwysau geni isel ac iechyd wedi'i hunanraddio'n waeth mewn cymdeithasau mwy anghyfartal. Mae salwch meddwl yn llawer mwy cyffredin mewn gwledydd mwy anghyfartal. Mae bod yn gaeth i gyffuriau yn fwy cyffredin mewn cymdeithasau mwy anghyfartal. Mae gordewdra yn llai o broblem mewn cymdeithasau mwy cyfartal fel Japan ac ar ei waethaf yn y rhai mwyaf anghyfartal fel UDA.

Nid mater o wario mwyfwy cynyddol ar y GIG yw iechyd gwell. Llwybr sicrach, na all yr angen i helpu'r bancwyr aflonyddu arno, yw cefnogi pethau syml fel bwyd da, llai o gystadleuaeth a llai o straen.

- Sicrhau bod **meddyginiaethau cyflenwol** y GIG sy'n gost-effeithiol ac y dangoswyd eu bod yn gweithio ar gael. Mwy o ofal deintyddol y GIG yn hytrach na **fflworideiddio** dŵr yfed ar raddfa eang.
- Darparu **canolfannau iechyd cymunedol lleol**, hygyrch sy'n darparu ystod eang o wasanaethau, gan gynnwys gofal y tu allan i oriau, a haen ychwanegol o ofal iechyd yn hytrach na disodli'ch meddyg teulu.
- **Dod â diwedd i ddewis gwan i gleifion**. I'r rhan fwyaf ohonom, mae dewis y claf yn llawer llai pwysig na chael triniaeth dda yn ein hysbyty neu ganolfan iechyd lleol – sef yr unig ddewis ymarferol i lawer yn aml iawn.
- Gwrthwynebu **gwasanaeth iechyd dwy haen**. Ni ddylai ansawdd eich gofal ddibynnu ar ddyfnder eich poced.
- Trin cleifion gydag **urddas**. Mae gan gleifion hawliau a chyfrifoldebau – nid cwsmeriaid sy'n gallu mynd a dod mohonynt. Dylid cydnabod eu hurddas, ond dylen nhw hefyd drin staff y GIG gyda pharch.
- **Dod â diwedd i lety rhyw cymysg** mewn ysbytai.
- Darparu'r **hawl i farwolaeth wedi'i chynorthwyo** mewn fframwaith trylwyr o reoleiddio, ac yng nghyd-destun argaeledd y lefel uchaf o ofal lliniarol.
- Cefnogi'r **gwaharddiad ar ysmygu** mewn mannau cyhoeddus caeedig.
- Defnyddio'r **cynnydd mewn trethi ar alcohol a thybaco** i ariannu twf gwirioneddol gyffredinol yn y tymor canolig o 1.2% y flwyddyn o leiaf yng nghyllideb y GIG.

Ymgeisydd Brighton Pavilion, Caroline Lucas, yn mynd i'r afael â phroblemau iechyd ac anhwylderau cysylltiedig ag alcohol

I bob 100,000 o drigolion yn Brighton, bydd 36 yn marw o achosion cysylltiedig ag alcohol eleni. Arweiniodd pwysau gan ymgeisydd Brighton Pavilion, Caroline Lucas a chynghorwyr Gwyrdd at y cyngor yn cymryd ystod o fesurau newydd i ddiogelu pobl, ac yn enwedig pobl ifanc, rhag camddefnyddio alcohol. Mae tafarndai a siopau trwyddedig lleol bellach wedi'u gofyn yn ffurfiol i stopio gwerthu lager cryfder uchel, rhoi'r gorau i arferion tanbrisio a mabwysiadu polisi 'Her 25' i gwtogi ar yfed dan oed.

trosedd

Mae trosedd, ac ofn trosedd, yn difetha gormod o fywydau, yn enwedig yn llawer o'n cymdogaethau tlotaf a mwyaf difreintiedig. Ni ddylai neb gorfod byw mewn ofn o gangiau strydoedd, na dioddef lladrata na byrgleriaethau, ac ni ddylai siopau wynebu dwylo blewog cyson. Ac ni ddylem oddef troseddau coler gwyn na thwyll ar y rhyngrwyd.

Er mwyn delio â throseddau, mae'n rhaid i ni fynd i'r afael â pham mae'n digwydd a beth i wneud pan fydd yn digwydd. O ran achosion troseddau, rhaid i ni gydnabod bod mwy o droseddau mewn cymdeithasau mwy anghyfartal yn y lle cyntaf, a thrwy wneud ein cymdeithas yn fwy cyfartal yn y ffyrdd a nodir yn y maniffesto hwn, byddwn yn ei gwneud yn fwy diogel hefyd. Yn ail, rhaid i ni weithredu ar y ffaith bod dros hanner yr holl droseddau yn cael eu hachosi un ffordd neu'r llall trwy gamddefnyddio cyffuriau Dosbarth A, yn bennaf heroin neu grac cocên. Bydd diwygio'n cyfreithiau cyffuriau mewn ffordd radical yn torri i lawr ar droseddau'n enfawr. Bydd gwneud ein strydoedd yn fwy diogel trwy derfynau cyflymder is yn meithrin cymuned ac yn torri troseddau'n anuniongyrchol. Yn olaf, cyflawnir llawer o droseddau gan bobl ifanc, yn enwedig dynion ifanc, ac mae angen i ni fynd i'r afael â hyn yn benodol.

Mae beth i wneud ar ôl i drosedd gael ei chyflawni'n bwysig hefyd. Mae carchariad drud troseddwyr, yn aml heb unrhyw waith adferol, yn waeth nac annefnyddiol. Fodd bynnag, rhaid i'r dioddefwr ddod yn gyntaf, a byddem yn cyflwyno system o gyfiawnder adferol, lle mae'r pwyslais ar y troseddwr i adfer sefyllfa'r dioddefwr cyn belled â phosibl i ble roedd cyn i'r drosedd ddigwydd. Wrth gwrs, derbyniwn y bydd rhai troseddwyr ystyfnig neu dreisgar a fydd yn gwrthod y dull hwn, a bydd dewisiadau eraill iddynt, sy'n arwain at garchariad, a fydd yn parhau i fod yn ofynnol.

Bod yn ddiogel, bod yn sicr

Er mwyn mynd i'r afael ag achosion troseddau, byddem:

- Yn trin **caethiwed i heroin a chrac fel mater iechyd** ac ni fyddem yn aros iddynt ddod yn broblem o ran troseddau. Byddwn yn cynnig triniaethau a allai gynnwys presgripsiwn o heroin ac felly'n tynnu achos y rhan fwyaf o fân droseddau sy'n gysylltiedig â chyffuriau a gyflawnir gan y sawl sy'n ddibynnol ac yn tynnu'r farchnad oddi wrth ddelwyr heroin.
- Canolbwyntio adnoddau'r heddlu a thollau ar **gynhyrchu graddfa fawr**, mewnforio a marchnata'r cyffuriau hyn.

Polisi ieuenctid

- *Dyblu'r buddsoddiad presennol mewn pobl ifanc*. Bydd hyn yn golygu cynnydd o'r gwariant presennol o £98 y person 13 - 19 oed y flwyddyn ar wasanaethau y tu allan i'r ysgol i ychydig o dan £200. Byddai hyn yn dod i amcangyfrif cost o £1bn.
- Creu *2000 o Ganolfannau Pobl Ifanc*. Lleoedd dynodedig i bobl ifanc gyfarfod a bod yn greadigol. Byddai'r canolfannau hefyd yn cynnig mynediad i wybodaeth a chymorth arbenigol i bobl yn eu harddegau sydd mewn trafferth.
- Creu *corff arwain cenedlaethol* i reoleiddio clybiau ieuenctid a Chanolfannau Pobl Ifanc.
- Bydd cynllun *Cyngor Gweithredol Pobl Ifanc* ledled y DU (a etholir gan bleidleiswyr 11-18 oed) yn rhoi i gynrychiolwyr 11-17 oed reolaeth weithredol dros ddarn bach o gyllideb eu cyngor lleol (£25,000), a fydd yn *gronfa ieuenctid* ddynodedig.
- Dylai pob person ifanc o dan 18 oed ac sydd mewn addysg amser llawn gael yr hawl i *ffioedd bysus am ddim ar adegau tawel*, er mwyn annog arferion cludiant cyhoeddus mewn pobl ifanc yn gynnar gyda'r bwriad o wneud hyn yn ymddygiad am oes.
- *Codi oedran cyfrifoldeb troseddol i 14 oed*. Diwygio'r system farnwrol i greu rhagdybiaeth statudol gref yn erbyn carcharu troseddwyr ifanc.
- *Gwaharddiad ar fodelau maint 0* yn y diwydiant ffasiwn er mwyn lleihau'r pwysau ar ferched i ufuddhau i ddelfryd afiach ac afrealistig.
- *Rhaglen gwirfoddoli* ieuenctid cenedlaethol i bob person ifanc o dan 18 oed, gan feithrin cydlyniad cymunedol rhwng cenedlaethau, yn ogystal â chreu arian i'r economi.

- Tynnu'r fasnach anghyfreithlon o £4bn y flwyddyn mewn **canabis** i ffwrdd o gangiau troseddol y strydoedd, trwy ddad-droseddoli'r meddiant, gwerthiant a'r cynhyrchiant ohono a thrwy gyflwyno masnach a gaiff ei rheoleiddio'n gywir gyda therfynau oedran clir.

- Rhoi gwell pethau i **bobl ifanc** eu gwneud trwy ddyblu gwariant ar wasanaethau ieuenctid yr awdurdod lleol, gan wario £1bn pellach y flwyddyn ar sicrhau mynediad i bawb i gyfleusterau o ansawdd ar gyfer clybiau cerddoriaeth, celf, drama, dawns ac ieuenctid, yn ogystal â chwaraeon.

- Cyfyngu ar ddefnydd yr heddlu o rymoedd **stopio a chwilio** ar hap, sy'n difrodi cysylltiadau'r heddlu ac ieuenctid.

- Gwella dyluniad ein dinasoedd i ddarparu **strydoedd** a mannau cyhoeddus **mwy diogel**.

- Canolbwyntio ar fesurau atal troseddau, gan gynnwys **mwy o blismona cymunedol o dan reolaeth ddemocrataidd leol**, mwy o orsafoedd heddlu lleol, ac adfer tocynwyr bysus ac eraill a chanddynt effaith bwysig ar drefn gymdeithasol.

- Arbed £2.5bn y flwyddyn trwy beidio â chael **cardiau adnabod**, sy'n ymyriad diangen ar ein preifatrwydd ac yn gwneud dim i atal trosedd a therfysgaeth.
- Darparu cyllid priodol i **Lochesi i Fenywod** ar gyfer dioddefwyr trais yn y cartref.

Ar ôl i droseddau ddigwydd, byddwn yn:

- Edrych i sefydlu **cyfiawnder adferol** fel prif nodwedd system cyfiawnder troseddol y DU. Er y byddwn yn condemnio'r drosedd, mae hyn yn ymdrin yn adeiladol â'r dioddefwr a'r troseddwr. O ganlyniad, byddwn yn lleihau'n eithafol ar y niferoedd a anfonir i'r carchar, gan arbed hyd at £8bn dros y Senedd nesaf.
- Cynnig cyrsiau **darllen ac ysgrifennu** i garcharorion y DU (mae gan ddwy ran o dair o garcharorion y DU sgiliau llythrennedd sydd islaw sgiliau plentyn 11 oed).
- **Atgyweirio'r difrod** a wneir i amwynderau a lleoedd cyhoeddus yn brydlon.
- Parhau i wrthwynebu'r defnydd o'r **gosb eithaf** dramor.

gwastraff

Lleihau, ailddefnyddio – ac wedyn ailgylchu

Rhaid i'r llywodraeth ddarparu'r isadeiledd i'w gwneud hi'n hawdd gwneud y peth iawn. Byddwn yn:

- Gwneud y pethau syml fel darparu **bin compostio am ddim** a rhoi cyngor ar gompostio i unrhyw un sydd eu heisiau.
- Galluogi cynghorau i integreiddio'n lleol y systemau **gwastraff domestig a masnachol**.
- Gwrthwynebu **llosgi** gwastraff, ond annog compostio domestig.
- Bron â **dyblu'r gwariant** ar ailgylchu a chael gwared ar wastraff. Rhaid i ni gydnabod bod rheoli gwastraff yn soffistigedig yn costio mwy na'i gladdu yn y tir. Byddwn yn gwario £3bn y flwyddyn yn ychwanegol, gan greu 60,000 o swyddi. Mae claddu gwastraff yn arwain at nwyon tŷ gwydr a llygredd, ac nid yw bellach yn dderbyniol.
- **Dylunio** cynhyrchion a phecynnau gyda golwg ar yr hyn a fydd yn digwydd iddynt pan na fyddant o gymorth mwyach. Byddwn yn defnyddio trethi ar becynnau diangen i atal y defnydd ohonynt, a byddwn yn barod i reoleiddio'r ffordd y caiff pethau eu gwneud er mwyn eu hatal rhag mynd i mewn i'r system wastraff.
- Anelu at ailgylchu 70% o wastraff domestig erbyn 2015 fel symudiad tuag at system **ddiwastraff**. Mae'r Llywodraeth yn darparu'r isadeiledd, pobl sy'n gwneud yr ailgylchu.

busnesau bach

Hyrwyddo amrywiaeth

Byddwn yn:

- **Symleiddio PAYE** trwy unioni'r terfyn Yswiriant Gwladol is gyda'r lwfans personol ac yn diddymu'r terfyn uchaf.
- Yn y tymor hir, anelu at **uno Yswiriant Gwladol a Threth Incwm**.
- Ei gwneud hi'n anghyfreithlon i gontract gyda pherson hunangyflogedig awgrymu cyfradd talu islaw'r **isafswm cyflog cenedlaethol**.
- Diwygio'r **deddfau cynllunio** i alluogi busnesau bach priodol i weithredu mewn ardaloedd preswyl a sicrhau bod pob datblygiad adwerthu newydd mawr yn cynnwys lle i fusnesau bach lleol.
- Helpu busnesau bach i ymdopi â **rheoleiddio** a darparu cyngor wedi'i deilwra ar effeithlonrwydd ynni.
- Cyflwyno rhwydwaith o **fanciau cymunedol lleol** a fydd yn darparu, ymhlith pethau eraill, ffynhonnell cyllid newydd i fusnesau bach.
- Defnyddio'n cynigion i adfywio'r rhwydwaith **Swyddfeydd Post** (gweler tudalen 19) yn enwedig i helpu busnesau bach.
- Darparu cymorth arbennig i fusnesau bach **gwledig**.
- Cyflwyno deddfwriaeth i **gosbi taliadau hwyr**.
- Lleihau **treth gorfforaeth** i gwmnïau bach i 20% (gweler tudalen 15 uchod).

Cynghorydd Gwyrdd yn cael bargen rhenti tecach i fasnachwyr glan môr

Ar ôl i Gyngor Dinas Brighton a Hove, dan arweiniad y Ceidwadwyr, godi rhent a chostau eraill i nifer fawr o fusnesau glan môr, gofynnodd y Seafront Business Association i'r Cynghorydd Gwyrdd lleol Jason Kitcat am help. Trwy gais Rhyddid Gwybodaeth, datgelodd y Cynghorydd Kitcat fargen rhwng y cyngor a thirfesurwyr siartredig preifat, a fyddai'n cael comisiwn o 30 y cant ar unrhyw gynnydd mewn rhent y gallent ei drafod gyda'r masnachwyr glan môr, ar ben eu ffi sefydlog. O ganlyniad, mae asesiad y mwyafrif o renti glan môr bellach wedi'i roi yn nwylo tîm mewnol newydd; dylai'r canlyniad olygu rhenti tecach i fasnachwyr.

3

Dinasyddion a'r Llywodraeth

defnyddwyr a dinasyddion, cyhoeddus a phreifat

DEFNYDDWYR

Mae'r rhan fwyaf o bobl sy'n byw nawr yn llawer cyfoethocach na phobl oedd yn byw ym 1950. Ond nid ydym yn hapusach. Pam ddim? Yn rhannol oherwydd bod y dystiolaeth yn dangos, pan fydd gennym incwm sylfaenol penodol, yr hyn rydym yn poeni mwyaf amdano yw ein sefyllfa o gymharu â phawb arall. Felly, os ydy cymdeithas yn fwy cyfartal, rydym yn hapusach, os ydyw'n anghyfartal, rydym am fyw bywydau'r sêr cyfoethog. Ac rydym yn anhapus os na chyflawnwn ein nodau. Felly, mae economi mwyfwy materol gyda mwy o anghydraddoldeb, fel rydym wedi'i gael dros y tri deg o flynyddoedd diwethaf, nid yn unig yn difetha'r blaned ond hefyd yn tanseilio lles.

Wrth reswm, mae arian yn hollbwysig, ac mae gormod o bobl ym Mhrydain nad oes ganddynt ddigon ohono. Dyna pam y mae trethi ac economeg Werdd yn anelu at greu cymdeithas fwy cyfartal, yn ogystal â mwy cynaliadwy.

Ond mae pethau eraill yn gwella lles hefyd. Mae perthynas y teulu, ansawdd gwaith,ffrindiau, y byd naturiol, iechyd a rhyddid yn bwysig hefyd. Mae angen lle ac amser ar yr holl bethau hyn - lle ac amser nad ydynt ar gael yn gynyddol mewn cymdeithas sy'n ymroi i gael a gwario. Bydd cymdeithas sy'n ymroi llai i dwf materol nid yn unig yn osgoi cwymp ecolegol ond hefyd yn ein gwneud ni'n fwy hapus.

DINASYDDION

Fel dinasyddion, rydym yn meddwl am les pawb ac am y dyfodol, ac nid yn unig am yr hyn rydym yn meddwl sy'n dda i ni'n hunain, nawr. Mae creu cymdeithas deg a chynaliadwy yn waith i'r llywodraeth ar bob lefel - ond gwaith ni fel dinasyddion yw hyn hefyd. Bydd y Blaid Werdd yn gweithio tuag at ddefnydd cynaliadwy trwy greu diwylliant dinesydd yn ogystal â defnydd mwy effeithlon o adnoddau.

Pryder penodol i'r Blaid Werdd yw parchu hawl cenedlaethau o ddinasyddion y dyfodol i beidio â bod dan anfantais y difrod y mae'r genhedlaeth hon yn ei wneud i'r amgylchedd. Rhaid i ni hefyd gefnogi cydsafiad rhwng cenedlaethau presennol, rhwng yr ifanc a'r hen.

CYHOEDDUS A PHREIFAT

Byddwn yn arwain adfywiad mewn lleoedd cyhoeddus – llyfrgelloedd, parciau, caeau chwarae. Mae angen ymdrech gyhoeddus ar degwch a chynaliadwyedd. Ni fydd miliynau o weithredoedd heb eu cydlynu sy'n anelu at fwyhau diddordeb unigolion preifat yn esgor ar y gymdeithas rydym ei heisiau ac yn ei haeddu. Dim ond dinasyddion, gyda chymorth Llywodraeth Werdd, all wneud hynny.

Byddwn yn dechrau chwyldro mewn ymddiriedaeth. Mae ein lleoliad a'n cydbwysedd o ran rheoleiddio'n anghywir: ni chaiff banciau eu rheoleiddio'n ddigonol a chaiff dinasyddion eu gor-reoleiddio. Caiff dinasyddion a gweithwyr eu trin fel plant trwy reolau iechyd a diogelwch a gaiff eu sathru gan archwiliadau. Mae petheuach goruchwylio'n costio ffortiwn ac yn tybio y bydd pob un ohonom yn ymddwyn yn wael oni bai ein bod dan fygythiad i ymddwyn yn dda. Credwn fod y berthynas chwythu'r chwiban hon gyda dinasyddion yn wrthgynhyrchiol. Bydd y Blaid Werdd yn ymddiried mewn dinasyddion a gweithwyr ac ni fydd yn eu gor-reoleiddio.

polisïau ar gyfer dinasyddiaeth

Hybu ymddiriedaeth

Byddwn yn:

- **Gwrthwynebu cardiau adnabod**. Ni fyddant yn gostwng nac yn atal troseddau. Mae gennym bryderon dybryd hefyd dros ddatblygu set data cenedlaethol, gan gynnwys data biometrig manwl, a chanddo'r potensial i dorri ar ryddfreiniau sifil.
- **Rhyddhau gwybodaeth** – ein galluogi ni i weld y data sydd ganddynt arnom. Credwn y dylai fod gan ddinasyddion yr hawl i fynd at y wybodaeth a gedwir gan y Llywodraeth ac eithrio lle y cyfyngir yn benodol ar hynny. Dylai'r cyfyngiadau ddiogelu preifatrwydd dinasyddion unigol a diogelwch cenedlaethol. Dylai gwybodaeth am ffurfio polisïau, cynnal materion cyhoeddus, yr amgylchedd ac iechyd a diogelwch fod ar gael yn rhwydd.
- Diwygio'r system **treuliau seneddol** er mwyn i wleidyddiaeth fod yn alwedigaeth a berchir, a heb ei llychwino mewn slebogeiddiwch a sgandal.

Hyrwyddo cydraddoldeb, dathlu amrywiaeth

Nod y Blaid Werdd yw trin pawb yn gyfartal ac yn deg. Byddwn yn gweithio i sicrhau parch i bawb beth bynnag yw eu hethnigrwydd, rhyw, oedran, cred grefyddol neu ddiffyg cred, cyfeiriadedd rhywiol, dosbarth, maint, anabledd neu statws arall.

Fan hyn, defnyddiwn enghraifft y materion lesbiaidd, hoyw, deurywiol, trawsrywiol a rhyngrywiol (LGBTI) i egluro'r polisi cyffredinol hwn yn fanylach. Mae meysydd gwahaniaethu eraill yr un mor bwysig a bydd ganddynt eu pwysleisiau eu hunain.

MATERION LGBTI (Lesbiaidd, Hoyw, Deurywiol, Trawsrywiol a Rhyngrywiol)

Byddwn yn:

- Diwygio'r **Mesur/Deddf Cydraddoldeb** i ddarparu diogelwch eglur yn erbyn aflonyddwch i bobl LGBTI.
- Gofyn i'r holl heddluoedd gael swyddogion cyswllt cydraddoldeb ac amrywiaeth y mae eu cylch gwaith yn brwydro yn erbyn, ac yn cymryd camau ataliol ar **droseddau yn erbyn pobl LGBTI**, pobl o leiafrifoedd ethnig (gan gynnwys ffoaduriaid a cheiswyr lloches) a phobl anabl.
- Targedu'n gyfreithlon yr **anogaeth o gasineb** ar sail hunaniaeth rhyw a diwygio'r Mesur/Deddf Cydraddoldeb i ddarparu diogelwch eglur yn erbyn aflonyddwch i bobl LGBTI.
- Cyflwyno **priodasau sifil a phartneriaethau sifil**, heb wahaniaethu i gyplau o'r un rhyw a rhyw wahanol ill dau.
- Dod â'r gwaharddiad cynhwysfawr, gydol oes ar **roddwyr gwaed** hoyw a deurywiol i ben.
- Ymgyrchu i ddelio â throseddau homoffobaidd, trawsffobaidd a hiliol, a throseddau yn erbyn **pobl anabl**, gan gynnwys pobl gydag anawsterau dysgu, yn effeithiol ac yn gyfartal â throseddau hiliol.
- Sicrhau **cydraddoldeb cyfreithiol i rieni** a'r rhai sy'n dymuno bod yn rhieni ni waeth beth yw eu cyfeiriadedd rhywiol, a chydraddoldeb o ran darpariaeth y gwasanaethau mamolaeth; lobïo am feithrinfeydd sydd ar gael ar raddfa eang, fforddiadwy a ariennir gan y wladwriaeth.
- Gwthio i ailysgrifennu'r **Ddeddf Iechyd Meddwl** i dynnu pobl drawsrywiol oddi ar y Gofrestr Anhwylderau Seiciatryddol.
- Ymgyrchu yn erbyn unrhyw ostyngiad yn y **gyllideb AIDS/HIV** a thargedu gwaith hybu iechyd i atal heintiau a drosglwyddir yn rhywiol.
- Sicrhau **noddfa ddiogel a statws ffoadur** i bobl LGBTI sy'n ffoi erledigaeth yn unol â grwpiau cymdeithasol eraill yn ôl Confensiwn Genefa.
- Gwrthod fisâu a thrwyddedau gweithio i gantorion **'cerddoriaeth llofruddio'** a phobl eraill sy'n achosi trais homoffobaidd a thrawsffobaidd.
- Gwrthwynebu'r holl eithriadau gan ddeddfau cydraddoldeb a gwrthwahaniaethu gan **sefydliadau crefyddol** a thynnu ymaith y driniaeth arbennig sy'n galluogi ysgolion ffydd i hyrwyddo homoffobia ar sail crefydd.
- Darparu **hyfforddiant cynhwysfawr i athrawon** a staff addysgol ar bob mater amrywiaeth a chynhwysiad; bydd ysgolion yn hyrwyddo cyfle cyfartal yn eu gweithdrefnau gwrth-fwlio; bydd materion cydraddoldeb yn cael eu monitro wrth recriwtio athrawon.
- Cefnogi brwydrau **hawliau dynol** mudiadau LGBTI mewn gwledydd gormesol fel Jamaica, Iran, Uganda, Malawi, Iraq, Nigeria, Zimbabwe a Rwsia.

MEYSYDD GWAHANIAETHU ERAILL

Ymhlith ein prif bolisïau mewn meysydd gwahaniaethu eraill, byddwn yn:

- Gweithredu strategaeth ledled y DU i fynd i'r afael â **thrais yn erbyn menywod**, gan gynnwys trais yn y cartref, trais rhywiol a chamdriniaeth rywiol a masnachu menywod.
- Sicrhau y cymerir camau effeithiol i atal gwahaniaethu yn erbyn pobl **anabl**.
- Gweithio tuag at ddod â'r stigma yn erbyn pobl gyda phroblemau **iechyd meddwl** i ben, gan gynnwys gwahaniaethu mewn cyflogaeth.
- Gorfodi cosbau yn erbyn cyflogwyr sy'n parhau i weithredu **cyflog anghyfartal**.
- Gweithio'n egnïol tuag at sicrhau bod pob lefel o'r Llywodraeth yn **cynrychioli amrywiaeth** y poblogaethau maent yn gweithio iddynt.

Cadw'r wybodaeth yn gyhoeddus

Byddwn yn hyrwyddo **darlledu i safonau uchel** trwy:

- Gynnal y **BBC** fel y prif ddarlledwr gwasanaeth cyhoeddus, sy'n rhydd o ymyrraeth y Llywodraeth.
- Tynhau'r rheolau ar berchenogaeth trawsgyfryngol
- Sicrhau bod gan bawb **fynediad digidol**; rhoi rhwymedigaeth ar BT i ddarparu isadeiledd fforddiadwy sy'n gallu cario band llydan cyflymder uchel i bob cartref.
- Cryfhau'r dulliau rheoli ar hysbysebu sydd wedi'i gyfeirio at blant.

llywodraeth: ein un ni ydyw

Mae llywodraeth yn hollbwysig, ond mae ganddi enw gwael, a rhoddodd y sgandal treuliau lond bol i ni. Bydd y Blaid Werdd, sydd heb gael ei llygru gan 'swigen San Steffan', ac y mae ganddi enw gwych mewn gwleidyddiaeth leol, yr Alban ac Ewrop, yn adfer eich ffydd a'ch ymddiriedaeth mewn Llywodraeth.

Mae llywodraeth yn bwysig oherwydd gall wneud pethau na all rhannau eraill o'r system eu gwneud. Dibynnwn lawer gormod ar y sectorau preifat a gwirfoddol i ddarparu nwyddau a gwasanaethau cyhoeddus. Mae'r sector preifat yn ddeinamig ond mae'n tueddu tuag at fuddiannau rhanddeiliaid tymor byr. Mae'r sector gwirfoddol yn ffynhonnell ddaioni aruthrol, ond weithiau ceir ynddi ddiffyg adnoddau a dylanwad. Felly wrth i ni gefnogi'r sectorau preifat a gwirfoddol, ni fyddant yn cyflawni cymdeithas deg a chynaliadwy ar eu pennau eu hunain.

Dim ond y Llywodraeth all wneud deddfau sy'n rhwymo pob un ohonom. Mae'n gosod y fframwaith ar gyfer y sectorau preifat a gwirfoddol, ac mae'n hoelio'i olygon ar les tymor hir y cyhoedd. Dyma yw ein gwarantydd yn erbyn buddiannau adrannol a bydd y Blaid Werdd yn adfywio'i henw da.

Ein un ni yw'r Llywodraeth ond ar hyn o bryd mae'n teimlo'n anghysbell ac allan ohoni. Mae'n gwario'n harian ond nid oes gennym lais yn yr hyn y caiff ei wario arno. Dyna pam y byddai'r Blaid Werdd yn cychwyn chwyldro mewn cyfranogiad a chyfreithlondeb, gan ddechrau trwy gyflwyno cynrychiolaeth gymesur i bob etholiad yn syth.

cyfranogiad

Dod â llywodraeth i'r bobl

Byddwn yn:

- Cyflwyno **cynrychiolaeth gymesur** gan ddefnyddio'r System Aelod Ychwanegol ar gyfer etholiadau Seneddol ac yn cyflwyno Seneddau tymor sefydlog. Dim ond y 200,000 o bleidleisiau mewn seddau ymylol oedd wir yn cyfrif yn yr etholiad diwethaf – mae hynny'n llai na'r 0.5% o'r sawl sy'n gymwys i bleidleisio. Gwneud i bleidlais pawb gyfrif.
- Cyflwyno'r hawl i **bleidleisio yn 16 oed**.
- **Diwygio Tŷ'r Arglwyddi** i ddod yn gorff etholedig llawn a ddewisir gan gynrychiolaeth gymesur. Ond er mwyn hyrwyddo'i annibyniaeth, dylai aelodau ond gael eu hethol am un tymor penodol o ddeng mlynedd, gyda hanner y tŷ'n cael ei ethol bob pum mlynedd.

Rheoli **treuliau'r ASau** trwy gorff annibynnol.

Dod â diwedd i effeithiau llygredig **rhoddion** mawr preifat ac Undeb Llafur **i bleidiau gwleidyddol** a chyflwyno system o ariannu'r wladwriaeth yn deg.

Sicrhau bod yr holl **lobïo**, ac yn benodol lobïo corfforaethol, yn gofrestredig ac wedi'i ddatgelu'n llawn.

Adfywio llywodraeth leol, gan gyflwyno cynrychiolaeth gymesur a chyda democratiaeth llawr gwlad yn lledu trwy ddefnyddio cynghorau cymuned a dosbarth llai. Dylai fod gan yr awdurdodau hynny rymoedd estynedig, a maes o law, grymoedd codi trethi newydd.

Refferenda ar benderfyniadau'r llywodraeth leol os bydd 20% o'r etholaeth leol yn galw am hynny.

Ailalw refferenda ar ASau, a chynrychiolwyr eraill os bydd 40% o'r etholwyr yn gofyn am hynny.

Symud tuag at **gyfansoddiad ysgrifenedig** gyda Mesur Hawliau.

.

4

Ein Hamgylchedd

newid mewn hinsawdd

Y caneri yn y mwynglawdd

Arferai mwyngloddwyr fynd â chaneris gyda nhw i'r mwyngloddiau i chwilio am nwyon gwenwynig. Roeddent yn rhybudd ymlaen llaw o broblemau oedd ar ddod. Dyna beth yw newid mewn hinsawdd heddiw – bygythiad yn ei hun i'n goroesiad fel rhywogaeth a rhybudd o gwymp ecolegol mwy cyffredinol. Mae'r dystiolaeth o Copenhagen yn awgrymu bod llywodraethau'r brif ffrwd heb ddeall natur a graddfa'r newidiadau y mae angen eu gwneud, o fuddsoddiadau enfawr mewn arbed ynni, i dechnolegau ac isadeiledd gwyrdd, i drosglwyddo arian i wledydd sy'n datblygu.

Mae newid mewn hinsawdd a wnaed gan fodau dynol yn fygythiad difrifol digynsail i'n lles. Ond dim ond y Blaid Werdd sy'n deall mai un arwydd yn unig yw hyn o'r straen y mae ein heconomïau a'n ffyrdd o fyw yn eu rhoi ar yr amgylchedd. Bydd y pleidiau gwleidyddol eraill yn gwneud i chi gredu mai problem ar ei phen ei hun yw hyn. Ond nid felly mohoni. Mae'n arwydd o'r hyn sydd i ddod oni bai y cawn drefn ar ein cartref planedol.

Gwyddwn fod gan bob person, pob cymuned, pob gwlad ôl troed carbon sy'n cyfrannu at newid mewn hinsawdd. A gwyddwn fod yn rhaid i'r sawl gydag olion traed mawr – y cyfoethog a'r sawl gyda ffyrdd o fyw afradlon – eu gwneud nhw'n llai.

Ond nid carbon yw'r unig ôl troed sydd gennym. Mae gennym olion traed dŵr ac olion traed eraill hefyd. O'u rhoi at ei gilydd, mae'r olion traed gwahanol hyn yn ychwanegu at gyfanswm ein heffaith ecolegol – a rhaid iddi beidio â bod yn fwy na'r blaned rydym yn byw arni. Fodd bynnag, heddiw, mae graddfa'r gweithgarwch economaidd wedi mynd â ni'n beryglus y tu hwnt i'r hyn y gall y blaned ei oddef er mwyn parhau i gefnogi bywyd dynol ac arall sy'n ffynnu, ac mae twf yn y boblogaeth ond yn gwneud pethau'n waeth.

Dyna pam y mae newid mewn hinsawdd yn fwy na bygythiad ar ei ben ei hun - mae'n rhybudd o'r canlyniadau cymdeithasol ac amgylcheddol catastroffig o fusnes yn ôl yr arfer.

Pam y mae angen i ni ostwng gollyngiadau gan 10 y cant y flwyddyn

Mae'r crynodiad carbon deuocsid (CO_2) yn yr atmosffer wedi codi o 270 rhan fesul miliwn (ppm) CO_2 yn y 19eg ganrif i ryw 435ppm CO_2 cyfatebol (hynny yw, yn cynnwys nwyon tŷ gwydr eraill fel methan) heddiw. Mae'r Llywodraeth yn tybio y dylem anelu at sefydlogi'r nwyon tŷ gwydr yn yr atmosffer yn y tymor hir i ryw 550ppm CO_2 cyfatebol. Mae eu targed o ostyngiad o 80% erbyn 2050 (neu ryw 2.5% y flwyddyn) yn seiliedig ar hynny. Ond mae *Stern Report* y Llywodraeth ei hun (sy'n crynhoi'r consensws gwyddonol) yn dweud bod 75-99% o gyfle (hynny yw, sicrwydd bron) o gynhesu byd-eang yn rhagori 2□C ar y lefel honno o nwyon tŷ gwydr. Os digwydd hynny, mae cyfle uchel o newid mewn hinsawdd ar ffo a thrychinebus. Yn y Blaid Werdd, credwn ei bod hi'n annoeth ac yn anfoesol derbyn y lefel honno o risg yn hysbys. Credwn y dylem anelu at sefydlogi lefel y CO_2 cyfatebol yn yr atmosffer i lefel sydd ychydig uwchlaw'r lefel bresennol (h.y. oddeutu 450ppm). Mae'r gwyddonwyr yn cytuno â ni. Er mwyn cyflawni 450ppm, mae angen i ollyngiadau byd-eang gwympo gan gymaint â 60% mor gynnar â 2030. Ac mae gwledydd wedi'u diwydiannu gyda gollyngiadau uchel, fel y DU, yn gallu fforddio ac mae angen iddi leihau eu gollyngiadau tipyn yn gynt: gostyngiad o 90% erbyn 2030. Mae hynny'n golygu gostyngiad blynyddol o ryw 10% y flwyddyn o nawr tan 2030.

Mae methiant Cynhadledd Copenhagen yn ei gwneud hi'n amlycach nag erioed nad yw dod o hyd i ateb byd-eang i newid mewn hinsawdd yn fater technegol ac economaidd yn unig. Rhaid i'r ateb hefyd gynnwys cyfiawnder, tegwch a chyd-ddibyniaeth ar raddfa fyd-eang. Ac mae'n faes lle dylai'r DU chwarae rôl arweiniol yn yr UE ac ar lefel ryngwladol i sicrhau bargen deg, uchelgeisiol a rhwymol.

Dyna pam y cefnogwn y fframwaith Cyfangu a Chydgyfeirio ar gyfer lliniaru newid mewn hinsawdd. O dan y system honno, byddai pob gwlad yn cydgyfeirio ar yr un gollyngiadau isel fesul y pen o'r boblogaeth yn y pen draw. Byddai angen i wledydd cyfoethog gyfangu i'r lefel honno'n gyflym, tra byddai'r gwledydd tlotach yn cyfangu'n llawer arafach i'r lefel honno, neu mewn rhai achosion yn ehangu i'w bodloni. O dan y sefyllfa honno, ac er mwyn osgoi gweld cynhesu'n rhagori 2□C, mae angen i'r DU fabwysiadu'r targed gostyngiad mewn gollyngiadau carbon deuocsid blynyddol cychwynnol o ryw 10 y cant, gyda'r nod o leihau gollyngiadau gan 90 y cant o lefelau 1990 erbyn 2030, a 65 y cant erbyn 2020 – gan ddechrau nawr.

ynni

Lleihau galw, diogelu cyflenwad

Byddwn yn:

- Blaenoriaethu'r **3 R newydd**: Tynnu Ymaith (*Remove*), Lleihau (*Reduce*), Disodli (*Replace*). I ddechrau, tynnu ymaith y galw'n gyfan gwbl lle bo'n bosibl (e.e. trwy stopio'r gweithgarwch dwys mewn carbon yn gyfan gwbl neu drwy wir dechnoleg ddi-garbon); wedyn lleihau'r galw (e.e. gan fesurau effeithlonrwydd ynni); wedyn newid i ynni adnewyddadwy ar gyfer pa bynnag angen o ran ynni sy'n weddill.

- Atal y defnydd o danwydd ffosil trwy ailgyflwyno'r **gris treth tanwydd**, cynyddu'r dreth mewn termau gwirioneddol gan 8% y flwyddyn a thrwy gyfres o fesurau eraill yn y maniffesto hwn.
- Yn y tymor hwy, **cyflwyno cwotâu carbon** (gweler y blwch ar dudalen 37) a diogelu cartrefi incwm isel, yn enwedig pensiynwyr, rhag tlodi tanwydd. Heb y mesurau hyn, bydd 'goblygiadau penllanw olew' yn tanseilio'n ffabrig cymdeithasol yn drychinebus.
- Nid yw'r sector preifat wedi ymateb i'r her ynni adnewyddadwy gyda digon o egni a buddsoddi. Byddwn yn cyflwyno rhaglen enfawr o **fuddsoddiad uniongyrchol y Llywodraeth** mewn cynhyrchu ynni gwynt graddfa fawr ac **ynni adnewyddadwy** arall, ac yn buddsoddi yn y grid, gan wario cymaint ag £20bn dros y Senedd ac yn creu 80,000 o swyddi mewn gosod a gweithgynhyrchu offer.
- Gofyn i bob cynllun datblygu a chais cynllunio mawr i ddangos sut byddant yn cyfrannu at **dargedau gostwng carbon**.
- Anelu at gael tua hanner ein hegni o **ffynonellau adnewyddadwy** erbyn 2020 a sicrhau nad oes dim gollyngiadau o gynhyrchu pŵer erbyn 2030.
- **Cael gwared yn raddol ar ynni niwclear a gwrthwynebu'n chwyrn unrhyw orsafoedd ynni niwclear newydd**. Mae ynni niwclear yn ddrud ac yn cymryd mwy o amser i'w gynhyrchu nag ynni adnewyddadwy. Yn ogystal â'r risgiau hysbys, nid oes ffordd ddiogel na fforddiadwy o gael gwared ar wastraff niwclear o hyd.

Goblygiadau'r penllanw olew – cyflenwadau'n prinhau

Mae olew yn adnodd cyfyngedig, dim ond hyn a hyn ohono sydd yn y tir. Un diwrnod bydd yn dod i ben. Ond mae ein problemau'n dechrau ymhell cyn hynny. Mae cyfradd fyd-eang cynhyrchu olew ar fin cyrraedd uchafswm, yn aros yn gyson am nifer o flynyddoedd ac wedyn yn raddol ddirywio. Mae'r penllanw a'r dirywiad hwn mewn cynhyrchiant olew eisoes wedi digwydd ar raddfa genedlaethol mewn sawl gwlad, gan gynnwys UDA (1971) ac yn y DU (1999). Mae mwyafrif y rhagamcaniadau ar gyfer y penllanw byd-eang yn syrthio rhwng nawr a 2015.

Ar ôl i'r galw am olew ragori'r cyflenwad, bydd y pris yn mynd i fyny. O hyn ymlaen, bydd olew'n mynd yn fwy brwnt, yn anos ei echdynnu ac yn ddrutach i'w buro. Mae tynged debyg o flaen nwy naturiol. Mae disgwyl i'r penllanw mewn cynhyrchiant nwy fod yn hwyrach nag olew, ond bydd y dirywiad llawer yn gynt pan fydd yn digwydd.

Defnyddiwn olew am bron popeth yn ein ffordd o fyw modern - fel tanwydd ar gyfer cludiant a gwres, ac fel porthiant i doddyddion, plastigion, asffalt, deunydd fferyllol a phecynnau. Mae olew hefyd yn hollbwysig ar gyfer amaethyddiaeth ddiwydiannol heddiw, gan ddarparu gwrteithiau cemegol, chwynladdwyr, ffwngleiddiaid, plaleiddiaid, rhoi tanwydd i beiriannau, prosesu a chludo bwyd. Bydd prisiau olew uchel yn dryllio economïau, gan arwain at chwyddiant a chwymp. Mae'r gystadleuaeth am olew eisoes wedi arwain at ryfel.

Nid ynni niwclear yw'r ateb

Cydnabyddwn fod rhai amgylcheddwyr, o wynebu'r angen ar frys i frwydro yn erbyn newid mewn hinsawdd, wedi bod yn amharod i benderfynu y bydd rhaid i ynni niwclear fod yn rhan o'r cymysgedd ynni.

Nid ydym yn cytuno. Er enghraifft:

- Mae ymchwil y Comisiwn Datblygu Cynaliadwy wedi sefydlu hyd yn oed petai gallu niwclear presennol y DU yn cael ei ddyblu, byddai ond yn arwain at doriad o 8% mewn gollyngiadau CO_2 erbyn 2035.
- Nid oes atebion tymor hir i'r broblem gwastraff niwclear ar gael eto.
- Mae economeg adeiladau niwclear newydd yn hynod ansicr, lle mae ynni gwynt, er enghraifft, bellach wedi'i sefydlu ac yn rhagweladwy. Mae risg clir y bydd rhaid i'r trethdalwr dalu'r gost.
- Mae niwclear yn system ganolog o gynhyrchu pan ddylem fod yn bwrw ati gyda rhwydweithiau microgynhyrchu a dosbarthu lleol.
- Mae rhaglen niwclear newydd yn rhoi'r argraff mai atgyweiriad technolegol mawr yw'r cyfan y mae ei angen, gan danseilio'r angen am effeithlonrwydd ynni.
- Os adeiladwn orsafoedd ynni niwclear newydd, ni allwn stopio gwledydd eraill rhag gwneud hynny. Mae hyn yn cynyddu'r risgiau o ddamweiniau, amlygiad i belydredd, ymlediad ac ymosodiadau terfysgol.

- Peidio â chaniatáu rhagor o fuddsoddi mewn **gorsafoedd ynni glo newydd**.
- Annog gwres adnewyddadwy a **gwres ac ynni cyfunol** trwy godi treth gwres gwastraff ar orsafoedd ynni newydd a thrwy helpu cynghorau i ddatblygu rhwydweithiau dosbarthu gwres mewn ardaloedd trefol addas. Gweithio i gynyddu cyfradd mabwysiadu bionwy o ffynonellau organig fel deunyddiau gwastraff amaethyddol a charthffosiaeth, gan weithio gyda'r cwmnïau dŵr i godi ffatrïoedd treuliad.
- **Gwrthwynebu meithrin biodanwydd ar raddfa fawr**, yn enwedig mewn gwledydd tlawd lle maent yn cystadlu gyda'r tir am fwyd, neu'n arwain at ddinistrio fforestydd trofannol.
- Cyflwyno polisïau cynllunio cryfach i **gefnogi cynlluniau ynni gwynt ar y tir**, llanw, tonnau, solar a geothermol a helpu awdurdodau cynllunio lleol i wneud penderfyniadau mwy cyson. Rhoi statws 'datblygiad a ganiateir' i gynlluniau ynni adnewyddadwy bach.
- Dod â'r rhwydwaith trydanol a'r prif gyflenwad nwy i mewn i **sector cyhoeddus** cwbl atebol a'u datblygu lle bo angen ar gyfer cynlluniau ynni adnewyddadwy.
- Cyflwyno **mesuryddion** a dyfeisiau **smart**
- Ehangu a datblygu **tariffau bwydo** ynni adnewyddadwy sy'n talu cyfraddau premiwm ar gyfer cynhyrchwyr trydan adnewyddadwy mawr a bach
- Cefnogi **mentrau ynni adnewyddadwy ledled Ewrop** fel grid dan y môr ar gyfer ynni gwynt ar y tir ac ar y môr, gan ganolbwyntio ffatrïoedd ynni solar yn ne Ewrop a diffeithdiroedd Gogledd Affrica ac adeiladu llinellau pŵer DC pellter hir, foltedd uchel hynod effeithlon.

Byddai cwotâu carbon yn gweithio fel hyn

Bob blwyddyn, byddai cyllideb carbon yn cael ei gosod ar gyfer y DU. Byddai'r gyllideb yn diffinio cyfanswm y carbon deuocsid y gellir ei ryddhau'n gyfreithlon, ac felly cyfanswm nifer yr unedau cwota carbon sydd ar gael. Byddai'r gyllideb hon yn cael ei gostwng bob blwyddyn yn olynol yn unol â thargedau ar gyfer gostyngiadau mewn gollyngiadau nwy tŷ gwydr.

Bydd tua hanner y cwotâu carbon yn cael eu dosbarthu'n rhad ac am ddim i bob oedolyn yn y wlad. Bydd pob person yn cael 'cyfrif carbon' a byddant yn cael yr un nifer o unedau carbon. Bydd rhieni'n cael dyraniad is ar ran eu plant.

Byddai gweddill yr unedau carbon yn cael eu gwerthu gan y Llywodraeth i gwmnïau a sefydliadau eraill.

Pryd bynnag y byddwch yn prynu tanwydd ffosil (neu docynnau hedfan neu drên), bydd eich cerdyn cyfrif carbon yn cael ei ddebydu. Byddai'n rhaid i chi dalu mewn unedau carbon yn ogystal â mewn punnoedd a cheiniogau. Os prynwch nwyddau neu wasanaethau eraill sy'n golygu gweithgynhyrchu neu gludo gollyngiadau carbon, bydd yr unedau y mae'r gweithgynhyrchwr wedi'u defnyddio'n cael eu hadlewyrchu yn y pris.

Byddwch yn gallu gwerthu mwy o unedau carbon neu brynu unedau ychwanegol os oes angen i chi, mewn ystod eang o ganolfannau, fel gorsafoedd petrol neu gan gwmnïau ynni.

Gan fod pobl dlotach yn defnyddio llai o garbon, byddai'r cwotâu carbon yn ailddosbarthu cyfoeth yn sylweddol.

cludiant

Hyrwyddo diogelwch a chynaliadwyedd

Dylai'r pwyslais mewn polisi cludiant fod ar wella mynediad i gyfleusterau lleol a chludiant pob dydd. Byddwn yn blaenoriaethu'r moddau cludiant yn unol â'r hierarchaeth ganlynol:

1. **Cerdded a seiclo**
2. **Cludiant cyhoeddus (trenau, tramiau a bysus) a llwyth rheilffyrdd**
3. **Ceir**
4. **Cerbydau nwyddau trwm**
5. **Hedfan**

Er mwyn **annog cerdded a seiclo** ar gyfer teithiau byrrach a gwella diogelwch y ffordd, byddwn yn:

- Gostwng **terfynau cyflymder** (e.e. i **20mph mewn ardaloedd adeiledig**, gan gynnwys pentrefi).
- Gwneud strydoedd yn ddiogel; yn eu gwneud nhw'n **fannau cyhoeddus** unwaith eto. Cynllunio ar gyfer datblygiadau defnydd cymysg lle mae siopau, tai a busnesau'n agos ac yn gysylltiedig gan balmentydd a ffyrdd seiclo.
- Cyflwyno terfyn cyflymder uchaf o **55mph** ar draffyrdd a chefnffyrdd a **40mph** ar ffyrdd gwledig, i'w gwneud nhw'n fwy diogel i holl ddefnyddwyr y ffordd.
- Cyflwyno cynlluniau fel **Parthau Cartref**, Llwybrau Diogel i'r Ysgol a phedestreiddio.
- Sicrhau bod o leiaf 10% o wariant cludiant ar sicrhau symudiad at **deithio mwy gweithgar** fel cerdded a seiclo.
- Ailddyrannu'r £30 biliwn y mae'r Llywodraeth wedi'i glustnodi i adeiladu ffyrdd dros y 10 mlynedd nesaf. Gwario'r arian ar raglen o **fuddsoddi mewn cludiant cyhoeddus** dros y Senedd.

- Darparu **cludiant lleol fforddiadwy, rhatach** sydd o fewn cyrraedd y sawl gydag anableddau trwy fuddsoddi mewn bysus a thrwy roi cymhorthdal i rai llwybrau. Gwneud cludiant cyhoeddus yn gyhoeddus.
- **Ail-reoleiddio'r** gwasanaethau bysus yn genedlaethol.
- Cynorthwyo busnesau gyda **chynlluniau teithio i'r gweithle gwyrdd**.
- Rhoi blaenoriaeth uwch i reilffyrdd a chynllunio ar gyfer **rhwydwaith rheilffyrdd sy'n tyfu**.
- Agor **gorsafoedd ychwanegol** ar lwybrau sy'n bodoli.
- Buddsoddi mewn systemau **Cludiant Ysgafn Cyflym** newydd (gan ddefnyddio technolegau priodol).
- **Symleiddio'r ffioedd** ar gyfer cludiant cyhoeddus i gyd, gyda gostyngiadau am deithiau adeg tawel ac i'r rhai ar incymau isel.
- Cefnogi **cludiant lleol am ddim** i bensiynwyr.
- Adfer **perchenogaeth** o'r rheilffyrdd, system y tiwb a systemau rheilffordd ysgafn eraill, gan gynnwys trac a gweithrediadau, i'r **cyhoedd**.
- Cefnogi mewn egwyddor **llinell cyflymder uchel gogledd-de** newydd a fyddai'n gostwng nifer yr hediadau byr yn y DU.

Byddwn yn gwneud i gost ceir preifat adlewyrchu'n fwy effeithiol eu cost amgylcheddol i'r gymdeithas ehangach:

- **Diddymu treth ceir** a'i disodli gyda threth prynu ar geir newydd sy'n adlewyrchu eu gollyngiadau. Felly, byddwn yn effeithio ar y mathau o geir a ddewisir ar yr adeg sy'n bwysig, pan gânt eu prynu'n newydd.
- Blaenoriaethu cludiant cyhoeddus, ac wedyn os oes angen, gweithio tuag at **gyflwyno cynlluniau prisio ffyrdd** fel tâl atal tagfeydd Llundain.

Byddwn yn gostwng llwythi trwm ac yn ei symud o'r ffyrdd i'r rheilffyrdd:

- **Yn lleihau'r galw am gludiant llwythi trwy leoli'r economi.**
- **Yn ehangu'r** rhwydwaith **llwythi rheilffyrdd** ac yn gwneud mwy o ddefnydd o ffyrdd dŵr, lle bo'n addas.
- Yn diogelu'r **tir** gerllaw rheilffyrdd i'w defnyddio mewn prosiectau dosbarthu llwythi.
- Yn cyflwyno **tollau** defnyddio'r ffyrdd **i lorïau trwm**.

Buddsoddi mewn cludiant cyhoeddus

Mae ehangu cludiant cyhoeddus (a cherdded a seiclo) yn hollbwysig i ddatgarboneiddio ein hisadeiledd cludiant, sef yr unig sector y mae gollyngiadau carbon sy'n newid yr hinsawdd yn tyfu ar hyn o bryd.

Byddwn yn arallgyfeirio arian sy'n cael ei wastraffu ar brosiectau ffyrdd enfawr ar hyn o bryd ac yn rhoi mwy o gyllideb cludiant y DU i mewn i gludiant cyhoeddus, ac yn enwedig i gynlluniau lleol ar gyfer cerdded, seiclo a theithio ar fysus.

Byddwn yn gwario £1.5 biliwn trwy roi cymhorthdal i gludiant cyhoeddus presennol i wneud y ffioedd hyd at 10% yn rhatach a £30 biliwn dros y Senedd ar fuddsoddi mewn gwell system. Bydd hyn yn arwain at gryfhau cymunedau, hyrwyddo mwy o werthfawrogiad o le, gostwng troseddau, gwella iechyd y boblogaeth a lleihau marwolaethau yn sgil traffig. Byddai hefyd yn creu 160,000 o swyddi.

Dylai'r buddsoddiad newydd mewn cludiant cyhoeddus ei hun fod mewn technolegau carbon isel cyn belled a bo hynny'n bosibl.

Byddwn yn gostwng teithio yn yr awyr trwy:

- Gyflwyno **treth ar hedfan** sy'n adlewyrchu ei gostau llawn ar yr amgylchedd. Mae methu trethu tanwydd hedfan a dewis peidio â chodi TAW ar docynnau ac awyrennau yn gwneud cyfanswm cymhorthdal sy'n werth rhyw £10bn y flwyddyn yn y DU yn unig.
- **Atal rhag ehangu meysydd awyr** a **symud** teithiau awyr byrrach **i'r rheilffyrdd** (mae 45% o holl deithiau awyr yr UE o dan 500km).
- Gwahardd **hedfan yn y nos**.

Ymgeisydd Lewisham, Darren Johnson, yn arwain cynghorwyr Gwyrdd Lewisham i weithredu'n lleol ar newid mewn hinsawdd

Mae cynghorwyr Gwyrdd Lewisham wedi gwthio am weithredu pendant ar bob cyfle posibl i frwydro yn erbyn newid mewn hinsawdd a rhoi atebion ymarferol gerbron i helpu'r trigolion lleol i wneud eu rhan. Enillodd y cynghorwyr Gwyrdd gyfres o gonsesiynau wrth i'r Cyngor osod y gyllideb, gan gynnwys:

- Mwy o arian i swyddogion cludiant cynaliadwy hyrwyddo seiclo a cherdded a chynnal hyfforddiant seiclo mewn ysgolion.
- Arian am gynnig i fod y fwrdeistref gyntaf yn Llundain i gynnal cynllun gostwng ynni fesul stryd.
- Rhoi mesuryddion smart ar fenthyg trwy lyfrgelloedd.
- Ffitio panelau solar mewn ysgolion cynradd lleol.

Fel AS, gallai Darren ymestyn ei waith yn genedlaethol.

ffermio, bwyd a diogelu anifeiliaid

Bwyd a hamdden iach a fforddiadwy

Byddwn yn:

- **Lleoleiddio'r gadwyn fwyd**, gan gynnwys cymorth i ffermydd bach, yn dechrau marchnadoedd ffermwyr, cynlluniau blwch fferm a chwmnïau cydweithredol y mae pobl leol yn berchen arnynt.
- Gosod targedau newydd bob pum mlynedd a thrawsnewid isafswm o **10%** o gynhyrchiant bwyd y DU **i fwyd organig bob pum mlynedd**.
- **Disodli'r Polisi Amaethyddol Cyffredin** (PAC) gyda chymorth i ffermydd llai o faint, amaethyddiaeth organig, marchnadoedd bwyd lleol, a mesurau i gynyddu bioamrywiaeth yng nghefn gwlad – rhaid i gymorthdaliadau Ewropeaidd gefnogi ffermio cyfeillgar i'r blaned.
- **Disodli'r Polisi Pysgodfeydd Cyffredin** gyda pholisïau sy'n blaenoriaethu'r gwaith o ddiogelu cefnforoedd ac sy'n darparu cymorth cynaliadwy i gymunedau pysgota. Yn benodol, ariannu'n gywir gweithrediad y Ddeddf Mynediad Morol ac Arfordirol.
- **Cefnogi parthau rhydd o GM** a pharhau i weithio am waharddiad llwyr ar fwyd wedi'u haddasu'n enetig yn Ewrop.
- Mae **ffermio da byw dwys** yn cyfrannu'n fawr at nwyon tŷ gwydr trwy gynhyrchu methan. Byddwn yn gweithio i fesur a lleihau effaith ein defnydd o gig a llaeth, gan gydnabod bod gan bori cylchdro traddodiadol y potensial i storio carbon yn y pridd.

- Gwella **sgiliau bwyd** trwy annog ysgolion i gynnwys plant wrth dyfu, paratoi a choginio bwyd.
- **Lleihau goruchafiaeth cadwyni archfarchnad** trwy ystod o fesurau fel:
    - gorfodi deddfwriaeth fonopoli'n egnïol yn erbyn y cadwyni mawr presennol;
    - cyflwyno Ombwdsmon archfarchnadoedd i ddiogelu ffermwyr rhag bwlio'r archfarchnadoedd;
    - gwahardd adwerthu allan o drefi newydd, a gofyn am ffioedd parcio i feysydd parcio preifat ac eithrio i bobl anabl;
    - mynnu bod 50% o le llawr mannau adwerthu mewn pob datblygiad newydd yn lle fforddiadwy i fusnesau bach lleol;
    - cynnwys polisïau clir ar gynaliadwyedd i alluogi awdurdodau cynllunio i roi blaenoriaeth i gwmnïau a ffermydd lleol;
    - gwahardd parcio adwerthu preifat newydd mewn datblygiadau mawr, ar wahân i bobl anabl; a
    - darparu llawer mwy o randiroedd.

Dylai'r rhan fwyaf o'r bobl sydd eisiau rhandir allu cael un. Dylai'r cynghorau ddefnyddio'u grymoedd presennol i glustnodi rhandiroedd newydd am byth.

Cymryd diogelu anifeiliaid o ddifrif

Rhannwn y byd gydag anifeiliaid eraill ac nid oes hawl gennym eu cam-drin na'u hecsbloetio. Yn unol â hynny, byddwn yn:

- Cael gwared yn raddol ar bob math o **ffermio ffatri** anifeiliaid ac yn gorfodi safonau lles anifeiliaid llym yn gyffredinol, gan gynnwys mewn amaethyddiaeth organig.
- Sicrhau bod y gwaharddiad Ewropeaidd ar fewnforion morloi yn cael ei weithredu'n llawn; gwahardd mewnforio nwyddau **ffwr** go iawn, ond sicrhau y caiff ffwr go iawn ei labelu'n glir hyd nes bod gwaharddiad ar waith; pwyso ar yr UE i wahardd ffermio ffatri ffwr; cyflwyno dewisiadau heb fod yn farwol o saethu morloi mewn ffermydd pysgod.
- .Cynnal y gwaharddiad ar hela gyda chŵn ac ymestyn i **chwaraeon gwaed** eraill, gan gynnwys defnyddio maglau a gwrthwynebu difa moch daear.
- **Gwahardd achosi niwed i anifeiliaid** (gan gynnwys ond heb fod yn unigryw i brimatiaid) yn syth mewn ymchwil, profion ac addysg, a buddsoddi mewn datblygu dewisiadau eraill i arbrofion ar anifeiliaid.
- Dod â diwedd i **allforion anifeiliaid byw** a chyfyngu ar amserau'r teithiau i gludo pob anifail.
- Gweithredu gwaharddiad llawn ar gynhyrchu a gwerthu wyau a gynhyrchir gan ieir a gedwir mewn **cewyll batri** (gan gynnwys cewyll 'estynedig' (*enriched*))
- **Diogelu bioamrywiaeth** ac iechyd dynol ac anifeiliaid. Byddwn bob amser yn mabwysiadu'r 'egwyddor ragofalus' o ran unrhyw fanteision honedig technolegau newydd fel addasu'n enetig, clonio, senotrawsblaniad a nanotechnoleg.
- Rheoleiddio'r fasnach **anifeiliaid cydymaith** gan gynnwys gwaharddiad ar fewnforio'r hyn a elwir yn 'anifeiliaid anwes egsotig'.

Rhandiroedd – hau'r dyfodol

Mae gan 330,000 o bobl randiroedd – ac mae 100,000 yn aros am un. Mae rhandiroedd yn torri i lawr ar garbon ac yn hadau i gymunedau dyfu arnynt. Yn ogystal, maen nhw'n:

1. Galluogi pobl i arbed arian.
2. Darparu ardal am fywyd gwyllt toreithiog.
3. Helpu amsugno carbon deuocsid o'r atmosffer.
4. Helpu torri swm y carbon deuocsid yn atmosffer y byd: mae pobl yn tyfu eu bwyd eu hunain yn hytrach na phrynu'r cyfan, ac felly'n lleihau 'milltiroedd yr awyr' (a llygredd o gludo trwy long neu lori).
5. Darparu grŵp cymunedol i bobl berthyn iddo a'i fwynhau.
6. Darparu lle i bobl ymarfer corff wrth wneud rhywbeth gwerth chweil.
7. Hyrwyddo gwydnwch.

bywyd gwyllt, mannau agored a thirwedd

Rhaid i ni ddiogelu'n bywyd gwyllt a'n tirwedd a'u hamrywiaeth, er eu lles eu hunain a'n lles ninnau - mae aer, dŵr, bwyd glân a rheoleiddio llifogydd i gyd yn dibynnu ar y dirwedd naturiol. Mae bioamrywiaeth dan fygythiad. Mae gweithgarwch dynol yn ysgogi'r chweched difodiant mawr ac rydym yn colli rhyw 30,000 o rywogaethau'r flwyddyn. Mae gennym gyfle hanesyddol nid yn unig i atal ein hamgylchedd naturiol rhag diraddio, ond i ddechrau mynd yn ôl i ddwy ganrif o ecsbloetiaeth.

Byddwn yn:

- Hyrwyddo **cadwraeth graddfa tirwedd**, gan ddiwygio'r Polisi Amaethyddol Cyffredin a'r system gynllunio i annog adferiad rhostiroedd, coedwigoedd, corstiroedd a chynefinoedd pwysig eraill.
- Gostwng yn ddramatig y defnydd o **blaleiddiaid** a chyflwyno mesurau fel 'parthau clustogi' o gwmpas caeau wedi'u chwistrellu i ddiogelu bodau dynol yn ogystal â bywyd gwyllt.
- Gwrthwynebu cyflwyno **Comisiwn Cynllunio** nad etholir iddo, yn enwedig ar gyfer ffyrdd, rhedfeydd, llosgwyr a datblygiadau tai amhriodol newydd, a sicrhau bod datblygu cynaliadwy, nid yn unig datblygu economaidd, wrth wraidd y system gynllunio.
- Pwyso i ymestyn swm y tir y mae **Cyfarwyddeb Cynefinoedd yr UE** yn ymdrin ag ef yn y DU, a sicrhau bod safleoedd gwarchodedig mewn cyflwr da.
- Sefydlu **Comisiwn Diogelu'r Amgylchedd** cenedlaethol i hyrwyddo ac integreiddio ymchwil a datblygu ar iechyd y cyhoedd a diogelu'r amgylchedd.
- Diogelu bywyd gwyllt tramor trwy dorri i lawr ar y **fasnach anghyfreithlon mewn cynhyrchion bywyd gwyllt** fel ifori, diogelu bioamrywiaeth mewn Tiriogaethau Prydain Dramor a gwrthwynebu pob math o **hela morfilod** masnachol a 'gwyddonol'.
- Cynyddu tawelwch ein hamgylcheddau **trefol**, gyda llai o sbwriel, llai o sŵn, llai o lygredd golau a mwy o leoedd gwyrdd. Dylai pawb fyw o fewn pellter cerdded i le gwyrdd naturiol.

5

Datblygu Rhyngwladol, Heddwch a Diogelwch

Mae polisi rhyngwladol y Blaid Werdd wedi'i anelu at leihau anghydraddoldeb byd-eang, yn enw tegwch, cynaliadwyedd a heddwch ac yng nghyd-destun byd cyd-ddibynnol.

Byddwn yn gwneud Prydain yn rym er lles rhyngwladol, a berchir ar hyd y gymuned fyd-eang, ac yn rhoi'r gorau i fod yn gynghreiriaid gorau a mwyaf dibynadwy'r Unol Daleithiau. Ceir parch trwy bolisïau rhyngwladol a ddyluniwyd i helpu'r sawl sy'n agored i niwed i helpu eu hunain mewn fframwaith byd-eang sy'n rhoi i bob gwlad lais wrth wneud penderfyniadau. Ceir parch trwy gymryd rôl arweiniol wrth atal gwrthdaro, diogelu sifiliaid y cânt eu bygwth gan wrthdaro a hyrwyddo hawliau dynol a chyfraith ryngwladol. Mae'r Blaid Werdd am i Brydain gael y math hwn o barch.

Mae sefydliadau rhyngwladol heddiw yn adlewyrchu pŵer yn hytrach na democratiaeth. Bydd y Blaid Werdd yn gweithio tuag at ddemocrateiddio'r gymuned ryngwladol, rhannu pŵer, dylanwad a chyfoeth yn decach ac yn ehangach.

Dyma hanfodion heddwch a diogelwch i bawb. Pobl sicr, sy'n gyfforddus â'u hunain a chydag eraill, sy'n ceisio heddwch yn hytrach na rhyfel.

polisi tramor ac amddiffyn

Parchu'r rhyngwladol

Byddwn yn:

- **Tynnu'r lluoedd allan o Afghanistan**. Mae bellach yn gwbl glir bod ein diogelwch wedi'i gyfaddawdu a heb ei wella, trwy ein rhan yn yr ymyriadau gwrthgynhyrchiol yn Iraq ac Afghanistan. Credwn mai'r ffodd orau ymlaen yw proses heddwch ranbarthol sy'n cynnwys holl bobl Afghanistan a'r gwledydd yn y rhanbarth.

- Fel rhagamodau cysylltiadau masnachu ffafriol parhaus, gorfodi **Israel i ddod â diwedd i'r gwarchae ar Gaza**, stopio ehangu aneddiadau ac ymroi i ddod â'r feddiannaeth i ben. Cydnabyddwn y bydd heddwch ond yn cael ei gyflawni pan fydd y prif wneuthurwyr heddwch yn mabwysiadu dull llai un ochrog.

Gaza

Mae arweinydd y Blaid Werdd, Caroline Lucas, wedi siarad yn erbyn ymgyrch hirsefydlog Israel o 'gosbi ar y cyd' yn erbyn pobl Gaza, sy'n torri'r llif tanwydd, y cyflenwadau masnachol a dyngarol, yn effeithio'n ddifrifol ar system ddŵr ac iechydaeth y rhanbarth, ac yn gyfrifol am ddioddefaint dros 860,000 o bobl agored i niwed.

Mae Cytundeb Cymdeithas yr UE gydag Israel yn arbennig o ddibynnol ar y ddwy ochr yn parchu hawliau dynol sylfaenol. Er gwaetha'r toriadau parhaol, nid yw'r cymalau hyn erioed wedi'u galw arnynt. Dywed Caroline 'Dan yr amgylchiadau hyn, rhaid i Gytundeb Cymdeithas yr UE gydag Israel gael ei ohirio'n syth. Byddai gohirio'r cytundeb masnach a chlymu'r amodau angenrheidiol ag unrhyw bolisi masnach i'r dyfodol gydag Israel yn galluogi'r UE i gael cyfle i chwarae rôl sylweddol wrth ddod â heddwch a sefydlogrwydd i'r Dwyrain Canol.'

- **Peidio ag ymosod ar Iran.** Rhaid mynd i'r afael â phryderon diogelwch gwirioneddol Iran yn gywir a byddai ymyriad milwrol yn wrthgynhyrchiol.
- **Peidio â disodli Trident**. Ni allwn amgyffred unrhyw amgylchiadau lle byddem yn defnyddio'r arfau drud ac anfoesol hyn; byddem yn datgomisiynu'r system bresennol ac ni fyddem yn ei hadnewyddu.
- Fel arall, **lleihau'r gwariant ar amddiffyn**, yn rhannol trwy dynnu'n ôl o Afghanistan a thrwy adolygu'r angen am rai systemau arfau drud, ond gan sicrhau bob amser y bydd ein lluoedd wedi'u paratoi'n briodol lle cânt eu hymrwymo.
- Gweithredu i **leihau gwariant arfau** yn fyd-eang trwy ddod â chymorth y Llywodraeth i ben ar gyfer allforion arfau a'r cymorthdaliadau i, gan gynnwys trwy Sefydliad Amddiffyn a Diogelwch Masnach a Buddsoddi'r DU a'r Adran Sicrwydd Credydau Allforio.
- Pwyso am drafodaethau llwyddiannus dros **Gytundeb Masnach Arfau** byd-eang grymus a chynhwysfawr.
- Defnyddio sgiliau ac adnoddau sydd wedi'u clymu mewn **diwydiant milwrol** yn y DU ar hyn o bryd i greu swyddi newydd a chynhyrchu cynhyrchion cymdeithasol defnyddiol, yn enwedig yn y sector ynni adnewyddadwy.

Terfysgaeth ac achosion terfysgaeth

Mae'r Blaid Werdd yn condemnio'r defnydd diwahân o drais i gyflawni dibenion gwleidyddol, ac yn arbennig targedu sifiliaid. Credwn y dylid defnyddio prosesau arferol ymchwiliadau troseddol a chyfraith yn erbyn cyflawnwyr yr ymosodiadau hynny.

Mae ymosodiadau terfysgol yn y DU yn gysylltiedig â'n hymyriadau yn Iraq ac Afghanistan, a chredwn fod y rhan honno o'r ateb yn y pen draw yn gorwedd mewn setliad cyffredinol cyfiawn yn y Dwyrain Canol. Credwn fod mwyafrif llethol Mwslimiaid y DU yn gwrthwynebu'r ymosodiadau hynny, a chondemniwn wneud y gymuned Fwslimaidd yn fwch dihangol. Gwrthwynebwn y ffordd y mae'r Llywodraeth wedi defnyddio'r ymosodiadau i gyflwyno mwy o fesurau didrugaredd sy'n tanseilio'n holl ryddfreiniau sifil, ac a fyddai'n dod â diwedd i orchmynion rheoli, yn cyfyngu ar gadw'r sawl y'u hamheuir o derfysgaeth i 7 diwrnod yn y carchar cyn cyhuddo ac yn dod â'r polisi 'Alltudiaeth gyda Sicrwydd' i ben (a all arwain at arteithio).

- Peidio â chymryd rhan yn system **amddiffyn taflegrau UDA** a gadael **NATO**
- Cydnabod pwysigrwydd sefydliadau **cymdeithas sifil** a gwasg rydd fyd-eang a'u rôl wrth hybu tryloywder, democratiaeth, llywodraethu da ac ymladd llygredd.
- **Diwygio'r Cenhedloedd Unedig** a sefydliadau rhyngwladol eraill. Gwneir strwythur presennol Cyngor Diogelwch y Cenhedloedd Unedig, gyda seddau parhaol i Ffrainc, y DU, UDA, Rwsia a Tsieina, yn annemocrataidd ac yn aml yn analluog gan yr hawl i wahardd. Mae angen gwell cynrychiolaeth ar wledydd tlawd yn arbennig. Byddwn yn gweithio i ddiwygio'r Cenhedloedd Unedig trwy ddiddymu pob sedd barhaol ar y Cyngor Diogelwch a chyflwyno gwneud penderfyniadau gan bleidlais mwyafrif.
- **Gwahardd** y defnydd o **arteithio**, gan gynnwys yr arfer o drosglwyddo all-gyfreithiol. Cefnogwn ryddid barn a'r hawl i brotestio.
- Mae angen cyfansoddiad iawn ar yr UE ond nid yw Cytundeb Lisbon yn briodol i'r gwaith. Dylai **Cyfansoddiad Ewropeaidd** ddiffinio gwerthoedd, amcanion, grymoedd, gweithdrefnau gwneud penderfyniadau a sefydliadau'r UE, a hefyd nodi hawliau sylfaenol y dinasyddion. Ym mhob gweithred yr UE, rhaid ystyried ffactorau cyfiawnder cymdeithasol ac amgylcheddol fel rhai sy'n gorgyffwrdd amcanion economaidd llwyr. Gwrthwynebwn filwreiddio'r UE.
- Gwrthwynebwn y DU yn mabwysiadu **arian sengl Ewropeaidd**, yr ewro.

Rôl gadarnhaol yn Ewrop

Egwyddor sylfaenol gwleidyddiaeth Werdd yw y dylid gwneud penderfyniadau ar y lefel ymarferol isaf: weithiau byddai'n well penderfynu ar bethau yr ymdrinnir â nhw ar lefel genedlaethol yn rhanbarthol neu'n fwy lleol. Felly pam ffwdanu â'r Undeb Ewropeaidd o gwbl?

Mae'r Gwyrddion yn rhyng-genedlaetholwyr; hoffwn feithrin cadernid rhwng pobl, a chredwn fod cydweithrediad yn meithrin heddwch, fel y mae wedi'i wneud yn Ewrop. Mae ein daearyddiaeth yn golygu ein bod ni'n rhan o Ewrop. Credwn mewn Ewrop ond nid mewn uwchwladwriaeth Ewropeaidd.

Mae ein gweledigaeth i Ewrop yn ceisio disodli economeg anghynaliadwy masnach rydd a thwf gyda'r dewis o hunanddibyniaeth leol. Hoffwn feithrin cydweithrediad ar faterion o ddiddordeb ar y cyd, gan beidio â sefydlu sefydliadau rhyngwladol er eu lles eu hunain. Yn unol â hynny, rydym yn feirniadol o'r nifer fawr o amcanion a adeiladwyd yng nghytundebau'r UE, o sefydliadau'r UE a sut maent yn gweithio, ac o nifer fawr o bolisïau penodol yr UE. Credwn y gellid gwneud nifer fawr o bethau a wneir ac a benderfynir yn Ewrop yn well gan aelod wladwriaethau neu gan ranbarthau neu ardaloedd. Felly, er ein bod yn aelodau o'r UE, byddwn yn gweithio ar gyfer ei diwygiad sylfaenol.

Fodd bynnag, ceir materion – diogelu hawliau sylfaenol, heddwch a diogelwch a gyflawnir trwy gyd-ddealltwriaeth, diogelu'r amgylchedd, lledu diwylliant a syniadau, rheoleiddio'r system ariannol – lle cytunwn fod camau gweithredu'r UE yn briodol. Er bod gan yr UE reolaeth dros fasnach, derbyniwn yn ymarferol mai'r ffordd o effeithio ar y materion hyn yw galw am weithrediad yr UE – felly galwn, er enghraifft, am waharddiad yr UE ar fwydydd wedi'u haddasu'n enetig oherwydd dan yr amgylchiadau presennol dyna'r ffordd orau o gyflawni gwaharddiad yn y DU. A cheir materion eraill – er enghraifft, polisi lles – er bod aelod wladwriaethau'n cadw'r rheolaeth sylfaenol, mae'r Dull Agored o Gydlynu rhwng aelod wladwriaethau'n galluogi ar gyfer mesur defnyddiol o drafod a chydlynu ar faterion o ddiddordeb i bawb.

mewnfudo

Mae mudo'n ffaith bywyd. Mae pobl wedi symud o un wlad i'r llall erioed, ac fel mater ymarferol, mae'r gallu i reoli ffiniau heb fesurau gormesol yn fwy cyfyngedig nag y mae'r rhan fwyaf o'r gwleidyddion yn hoffi ei ffugio. Mae llawer o'n hiaith, diwylliant a ffordd o fyw wedi'u cyfoethogi gan newydd-ddyfodiaid olynol dros ddwy fil o flynyddoedd. Nid mater o fewnfudo'n unig mohono - mae dros 5 miliwn o Ddinasyddion Prydain yn elwa ar bolisïau mewnfudo rhyddfrydol gwledydd eraill trwy fyw dramor.

Mae achosion person yn symud i'r DU yn gymhleth. I'r person dan sylw, gallai fod yn ddihangfa o erledigaeth a gwell rhagolygon economaidd, ond hefyd gwahanu o'r cartref, ffrindiau a theulu. O ran y wlad tarddiad, gellir colli gweithwyr medrus, yn enwedig gweithwyr iechyd proffesiynol, ond hefyd derbyn taliadau gan y mewnfudwr, ac mae llawer o fudwyr yn dychwelyd gyda gwell sgiliau. I'r gymuned sy'n derbyn y mewnfudwr, gallai fod manteision o gael gwaith wedi'i wneud nad oes neb yn y gymuned honno eisiau nac yn gallu ei wneud, mwy o drethi'n cael eu talu a chreu atmosffer mwy cosmopolitan. Ond gallai hefyd fod costau o ran cystadleuaeth ddigroeso am swyddi, pwysau ar dai ac adnoddau eraill a phwysau tymor hwy ar y boblogaeth gyffredinol.

Wrth benderfynu ar bolisi ar fewnfudo, mae'n bwysig ystyried yr holl bwyntiau hyn a'u pwyso a mesur yn erbyn ei gilydd. Rhaid i ni hefyd dderbyn ein rhwymedigaethau cyfreithiol a moesol i roi lloches i'r rhai sy'n ffoi erledigaeth, a'r egwyddor o symudiad rhydd ar hyd yr Undeb Ewropeaidd.

Yn erbyn y cefndir hwn, mae ein polisi fel a ganlyn:

- Lle rydym yn cyfyngu ar niferoedd, rhaid i'n **blaenoriaeth** fodloni'n rhwymedigaethau i ffoaduriaid a'r rhai sy'n ceisio noddfa, gan gynnwys y niferoedd cynyddol o bobl sy'n cael eu dadleoli gan newid amgylcheddol, uwchlaw anghenion ein heconomi.
- Rhaid i'n polisïau mewnfudo fod yn **deg ac yn anwahaniaethol**, parchu hygrededd teuluoedd a'u cymhwyso'n brydlon ac yn effeithiol.
- Dylai ein polisïau rhyngwladol geisio **lleihau'r** ffactorau economaidd, gwleidyddol ac amgylcheddol **sy'n gorfodi pobl i fudo** ym mhobman. Dylai allfudo fod yn ddewis cadarnhaol, nid ffrwyth anobaith. Yn benodol, mae **symud yn rhydd yn yr UE** yn ffaith. Dylem bwyso am bolisïau'r UE sy'n gwneud pob rhan o'r UE yn lle deniadol i fyw ynddo.
- Gwrthodwn ddefnyddio mewnfudo fel **mater gwleidyddol** i guddio problemau fel diffyg tai cymdeithasol ansawdd uchel. Yr ateb priodol yw darparu digon o dai cymdeithasol, fel y cynigiwn rywle arall yn y maniffesto hwn.
- Ni ddylem oddef presenoldeb tymor hir niferoedd mawr o bobl nad yw eu **statws mewnfudo** wedi'i ddiffinio. Mae'r mewnfudwyr hynny'n agored i ecsbloetiaeth gan gyflogwyr diegwyddor ac eraill, gan danseilio telerau ac amodau cenedlaethol cyflogaeth. Byddwn yn cyflwyno ffyrdd i fudwyr anghyfreithlon sy'n bodoli sydd wedi bod yma am dair blynedd i ddod yn gyfreithlon. Yn benodol, rhaid darparu **statws cyfreithlon** i bobl nad ydynt wedi llwyddo yn eu cais am amddiffyniad dyngarol ond sy'n methu dychwelyd i'w gwlad tarddiad yn sgil y sefyllfa wleidyddol yno.

- Byddwn yn adolygu'r **gweithdrefnau lloches** i sicrhau nad yw amddifadrwydd yn chwarae rôl yn y broses lloches trwy alluogi'r rhai sy'n ceisio noddfa i weithio.
- Byddwn yn **adolygu Deddf Cenedligrwydd, Mewnfudo a Lloches 2002**, yn enwedig o ran materion mynediad i gyngor cyfreithiol, gofal plant a lefelau lwfans cynhaliaeth.
- Ni ddylai'r sawl sydd wedi'u **masnachu** fod yn destun alltudiaeth ddiannod. Dylent gael hawl dros dro i aros a chael yr un hawl i wneud cais i aros ag eraill sy'n ceisio mudo.
- Ni ddylid cadw'r sawl sy'n ceisio noddfa yn y ddalfa, ac yn benodol mae cadw **plant** yn y ddalfa'n annerbyniol a dylai ddod i ben yn syth.

masnach, cymorth a dyled

Ei gwneud hi'n deg, ei gwneud hi'n gynaliadwy

Masnach rydd fu mantra globaleiddio ers dros 30 o flynyddoedd. Daw ar gost oherwydd:

- Mae'n annog 'ras i'r gwaelod', lle caiff gwledydd eu gorfodi i gystadlu â'i gilydd i gynnig y costau isaf, gan arwain at bwysau am i lawr ar gyflogau ac amddiffyn yr amgylchedd, yn ogystal â gostwng trethi corfforaeth.
- Mae rhyddfrydoli masnach mewn nwyddau a gwasanaethau wedi gwneud economi'r byd yn fwyfwy ansefydlog oherwydd mae haint economaidd yn lledu'n gynt.
- Mae'n dinistrio diwydiannau bychain mewn gwledydd tlotach, y cânt eu gorfodi i agor eu marchnadoedd i fewnforion o wledydd mwy datblygedig , ac yn tanseilio'r ymdrechion i ddod yn fwy hunan-ddibynnol yn y Gogledd a'r De.
- Mae'n cynhyrchu mwy o fasnach ryngwladol, sy'n gwneud cyfraniad sylweddol i'r cynnydd mewn gollyngiadau carbon sy'n gysylltiedig â chludiant.

Felly ceisiwn gysylltiadau masnachu, yn enwedig gyda phobl dlawd mewn gwledydd tlawd, sy'n rhoi iddynt bris teg am eu nwyddau mewn patrwm masnach sefydlog a chynaliadwy. Mae gan wledydd tlotach hawl i ddiogelu eu pobl a'u marchnadoedd rhag cystadleuaeth nad yw'n cael ei rheoleiddio, a byddwn yn ceisio troi Sefydliad Masnach y Byd yn Gytundeb Cyffredinol ar Fasnach Gynaliadwy, a fydd, ynghyd â Chronfa Ariannol Ryngwladol ddiwygiedig, yn adlewyrchu buddiannau gwledydd llai yn well.

Byddwn yn:

- Hyrwyddo **masnach deg**, er mwyn i fasnach gyda gwledydd sy'n datblygu fod yn seiliedig ar gyflog ac amodau boddhaol, gan dalu pris teg i gynhyrchwyr.
- Sicrhau bod bargenion masnach, boed yn fyd-eang neu gyda'r Undeb Ewropeaidd, yn galluogi gwledydd sy'n datblygu i **gadw rheolaeth** ar eu heconomïau ac yn peidio â gorfodi dadreoleiddio a rhyddfrydoli.
- Hyrwyddo **Treth Trafodion Ariannol** rhyngwladol (Treth Robin Hood) ar drafodion rhwng sefydliadau ariannol, ac yn cyflwyno ar un ochr dreth fach ar drafodion arian tramor sy'n cynnwys y bunt sterling.

Mae hyrwyddo masnach deg yn dechrau fan hyn.

Dan arweiniad cynghorwyr lleol y Blaid Werdd ac ymgeisydd De Norwich, Adrian Ramsay, mabwysiadodd Cyngor y Ddinas gynnig y Blaid Werdd i wneud Norwich yn Ddinas Masnach Deg. Mae hyn yn golygu bod y Cyngor yn stocio ac yn helpu hyrwyddo nwyddau masnach deg.

- Cefnogi'r agenda **gwaith boddhaol**, trwy annog gwledydd sy'n datblygu rydym yn gweithio gyda nhw i weithredu safonau craidd y Sefydliad Llafur Rhyngwladol.
- Sicrhau bod **cwmnïau'r DU** sy'n gweithredu tramor yn glynu wrth safonau amgylcheddol a hawliau dynol.
- Gweithredu'n llawn a gorfodi **Confensiwn y Cenhedloedd Unedig yn erbyn Llygredigaeth** (UNCAC) a Chonfensiwn Gwrth-Lwgrworbrwyaeth yr OECD.
- **Cynyddu cymorth**. Byddwn yn rhagori ar darged 0.7% y Cenhedloedd Unedig ac yn dyrannu o leiaf 1% o Gynnyrch Cenedlaethol Gros y DU am gymorth erbyn 2011, gan ychwanegu £4.5bn y flwyddyn yn ychwanegol. Dylid targedu cymorth i'r tlotaf, peidio â chynnwys amodau polisi economaidd, parchu cydraddoldeb rhyw a pheidio ag arallgyfeirio i ddarparu lluoedd diogelwch.
- Cadw **Adran Cymorth Ryngwladol** ar wahân i'r Swyddfa Dramor, gyda'i Hysgrifennydd Gwladol ei hun, er mwyn gwahanu buddiannau polisi tramor wrth gymorth dyngarol.

Treth Robin Hood

Cefnogwn y syniad o Dreth Robin Hood, a elwir weithiau'n Dreth Trafodion Ariannol (ac yn debyg i achos arbennig 'Treth Tobin' ar drafodion arian). Byddai'n cynnwys treth fach iawn (0.05% efallai) ar werth pob trafodyn ariannol rhwng sefydliadau ariannol yn fyd-eang. Ar lefel fyd-eang, mae gan y dreth hon y potensial i godi cymaint â £250 biliwn, yn ogystal â helpu sefydlogi'r marchnadoedd ariannol.

Rhaid i unrhyw gytundeb newid mewn hinsawdd fyd-eang gynnwys trosglwyddo adnoddau sydd ymhell dros $150 biliwn UDA y flwyddyn o wledydd cyfoethog i wledydd tlotach a gaiff eu sianelu trwy Gonfensiwn Fframwaith y Cenedlaethol Unedig ar Newid mewn Hinsawdd i dalu am ddatblygu technolegau ynni adnewyddadwy ac addasu newid mewn hinsawdd a helpu gwrthsefyll datgoedwigo.

Ffafriwn ymroi'r refeniw o dreth trafodion ariannol rhyngwladol i'r diben hwn ac i ddatblygu cynaliadwy byd-eang ehangach. Os na fydd hynny'n llwyddianus, rhaid i'r DU dalu ei chyfraniad yn deg o adnoddau eraill.

Dyled a dyled ecolegol

Mae'r Blaid Werdd yn galw am ailasesiad o natur dyled ei hun trwy gydnabod y ddyled ecolegol hanesyddol sy'n ddyledus gan wledydd cyfoethog i wledydd tlawd.

Canfu astudiaeth 2008 gan Brifysgol California, Berkeley fod dyled ecolegol y byd cyfoethog i'r byd tlawd yn trechu'r ddyled draddodiadol sy'n ddyledus gan wledydd tlawd i wledydd cyfoethog. Er enghraifft, mae gollyngiadau tŷ gwydr o wledydd incwm isel wedi gosod $740 biliwn UDA o ddifrod ar wledydd cyfoethog, wrth i wledydd cyfoethog osod $2300 biliwn UDA o ddifrod ar wledydd tlotach.

Mae'r ddyled ecolegol wedi adeiladu trwy: echdynnu adnoddau naturiol heb daliad priodol; defnyddio gwybodaeth leol a brodorol i ddatblygu cynhyrchion (e.e. meddyginiaeth) heb ad-daliad priodol; defnyddio'r tir lleol ar gyfer allforion mono-gnydau yn hytrach nag i fwydo'r boblogaeth leol; ac adfeddu'r atmosffer ar gyfer gollyngiadau anghymesur o nwyon newid mewn hinsawdd.

Mae angen cydnabod a thalu am ddyled ecolegol. Ar yr un pryd, mae'r Blaid Werdd am weld pob dyled draddodiadol anghyfiawn ac anghynaliadwy 'dyledus' gan y byd sy'n datblygu i wledydd cyfoethocach yn cael ei chanslo.

Yn aml, mae dyledion yn anghyfiawn ac yn gwaethygu tlodi. Mae llawer o ddyled y byd tlotach yn deillio o fenthyca di-hid gan wledydd cyfoethocach yn y 1970au. Gwneir rhai o effeithiau hyn yn waeth gan lywodraeth lygredig mewn rhannau o'r byd sy'n datblygu, ond gwneir y difrod gwirioneddol gan yr ad-daliadau enfawr a fynnir gan yr IMF, Banc y Byd a llywodraethau gwledydd cyfoethog.

Ar hyn o bryd, mae llawer o linynnau'n gysylltiedig â chanslo dyledion, sydd yn aml yn anghyfiawn ac yn annemocrataidd yn eu hunain. Hoffwn weld y llinynnau hyn yn cael eu tynnu ymaith. Yn y diwedd, yr unig ffordd o osgoi dyled yn y dyfodol yw cyfiawnder economaidd nawr. Dyna pam y cefnogwn yn gadarnhaol Nodau Datblygu'r Mileniwm a'u cyflawni yn erbyn targed 2015.